



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

53/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

17/12/2019

Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion yng Nghymru: Adroddiad Ymchwil Cwmpasu

Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion yng Nghymru –
Adroddiad Cwmpasu

Carwyn Greaves, Kerry KilBride a Geof Andrews, Miller
Research

Barnau ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barnau
Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Par Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Geirfa 2

1.	Crynodeb.....	4
2.	Cyflwyniad.....	9
3.	Methodoleg yr ymchwil.....	12
4.	Cefndir a chyd-destun polisi.....	16
5.	Canfyddiadau allweddol	22
6.	Casgliadau a goblygiadau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru yn yn y dyfodol.....	50
7.	Atodiadau	555

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
ACEs	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Adverse Childhood Experiences)
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
Cyffredinolaeth gynyddol	Gwasanaethau cyffredinol sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu'n systematig i ddarparu continiwm o gymorth yn unol ag angen (progressive universalism)
Cymysgedd sgiliau	Cymysgedd sgiliau yw'r cyfuniad neu grwpiau o wahanol gategorïau o weithwyr a gyflogir mewn unrhyw faes o waith.
Dechrau'n Deg	Rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair mlwydd oed sy'n byw yn ardaloedd difreintiedig Cymru yw Dechrau'n Deg.
Gwasanaethau Cyffredinol (o dan Raglen Plant Iach Cymru)	Dyma'r isafswm craidd o ymyrraeth a gynigir i bob teulu, waeth beth fo'u hangen.
Gwasanaethau Dwys (o dan Raglen Plant Iach Cymru)	Ymyrraethau pellach yw'r rhain, sydd wedi eu hadeiladu ar asesu a dadansoddi parhaus o angen ychwanegol.
Gwasanaethau Estynedig (o dan Raglen Plant Iach Cymru)	Ymyrraethau ychwanegol ar sail asesiad a dadansoddiad o wydnwch ac adnabod angen ychwanegol.
HCWP	Rhaglen Plant Iach Cymru (Healthy Child Wales Programme)

Rhaglen Mesur Plant (CMP)	Caiff y Rhaglen Mesur Plant ei chydgysylltu gan lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n safoni'r ffordd y caiff taldra a phwysau plant ysgol gynradd eu mesur ledled Cymru.
SCPHN	Nyrs Arbenigol Gymunedol lechyd Cyhoeddus (Specialist Community Public Health Nurse)
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (Welsh Community Care Information System)

1. Crynodeb

Trosolwg o Raglen Plant Iach Cymru

- 1.1 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru, rhaglen iechyd gyffredinol i bob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng 0 a 7 mlwydd oed, wedi cael ei chyflwyno'n raddol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru ers mis Hydref 2016. Mae'r Rhaglen hon yn pennu pa gysylltiadau a drefnir y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, o'r adeg y trosglwyddir o wasanaeth mamolaeth hyd at flynyddoedd cyntaf ysgol.
- 1.2 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys cyfrifoldebau cadw gwyliadwriaeth¹ a sgrinio² am wasanaethau nyrsio mewn ysgolion a ddarperir i blant oed ysgol gynradd hyd at saith oed.
- 1.3 Er mwyn cael sail o wybodaeth ar gyfer llunio polisi yn y dyfodol ar wasanaethau nyrsio mewn ysgolion i blant y tu hwnt i saith oed, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research³ i gynnal ymchwil cwmpasu i'r ffordd y caiff gwasanaethau nyrsys ysgol eu cyflwyno ar hyn o bryd mewn gwahanol leoliadau ysgol⁴ ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Nodau ac amcanion yr ymchwil

- 1.4 Prif nod yr ymchwil oedd darparu sail dystiolaeth o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ar hyn o bryd yng Nghymru. Amcanion penodol yr ymchwil oedd:
 - deall beth mae rhanddeiliaid yn ei weld fel rôl a swyddogaeth gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion
 - egluro'r gwasanaethau cyffredinol ac estynedig a gyflwynir gan nyrsys ysgol ar hyn o bryd

¹ Yn benodol, Adolygiad Iechyd Nyrs Ysgol, a gynigir i blant oedran dosbarth derbyn (4-5 oed) a dylai gynnwys: trosglwyddo ffurfiol neu anffurfiol o'r ymwelydd iechyd i'r nyrs ysgol, holiadur i'w gwblhau gan y rhiant/gofalwr ynghylch statws iechyd ac imiwneddio presennol y plentyn a gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a ddarperir i rieni/gofalwyr. Am fwy o fanylion, gweler: [Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru](#)

² Mae'n ofynnol gan Raglen Plant Iach Cymru i'r canlynol gael eu cwblhau "yn fuan ar ôl mynediad i'r ysgol" neu "erbyn 5 oed": sgrinio am nam ar y clyw, sgrinio am nam ar y golwg a'r Rhaglen Mesur Plant.

³ Roedd Miller Research eisoes wedi cael eu penodi ym mis Hydref 2017 Hydref 2017 i gyflawni [gwerthusiad ffurfiannol o Raglen Plant Iach Cymru](#).

⁴ Gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

- darganfod unrhyw anghysondebau yn y gwasanaethau a gyflwynir, gan gynnwys enghreifftiau o'r arferion gorau
- darganfod sut caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu dogfennu a'u monitro ar hyn o bryd
- archwilio sut mae nyrsys ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau eraill
- cael barn rhanddeiliaid ar feysydd lle mae angen gwella mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion.

Methodoleg yr ymchwil

1.5 Roedd methodoleg yr ymchwil hwn yn ansoddol ei natur ac yn cynnwys:

- adolygiad desg o ddogfennaeth polisi a chanllawiau
- cyfweiliadau ffôn gydag aelodau Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru⁵ a rhanddeiliaid perthnasol eraill (x7)
- cyfweiliadau ffôn gyda nyrsys ysgol arweiniol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru^{6,7} (x8)
- cyfweiliadau ffôn gyda nyrsys ysgol o amrywiol fandiau⁸ o bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol (x26)
- cyfweiliadau ffôn gydag ymarferwyr addysgu mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ledled Cymru (x13).
- cyfweiliadau ffôn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru (x7).

⁵ Mae Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru wedi ei ffurfio o gynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Fforwm Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Iechyd Ysgol Cymru Gyfan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Grŵp Imiwneiddio Cymru a rhaglen imiwneiddio a brechu Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prif Swyddog Nyrsio Iechyd Atgennhedlol Menywod, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac amrywiol fyrdau Iechyd.

⁶ Mewn un achos, cynhaliwyd y cyfweiliad gyda'r rheolwr nyrsio, yn absenoldeb y nyrs ysgol arweiniol.

⁷ Yn benodol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

⁸ Mae swyddi nyrsio wedi eu cysoni â bandiau tâl Agenda ar gyfer Newid. Mae gan bob un o'r bandiau tâl nifer o bwyntiau tâl.

Canfyddiadau allweddol yr ymchwil

- 1.6 Mae'r ymchwil wedi dangos gwerth gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru yn glir iawn. Er hynny, mae'r gwasanaeth a ddarperir i ddisgyblion ysgol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, o safbwynt beth a ddarperir, pwy sy'n ei ddarparu a'r graddau y gall nyrsys ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill ddarparu cymorth dilynol i'r rheini sydd ei angen. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch addasrwydd rhai agweddau o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru.
- 1.7 Mae'r rhaglen imiwneiddio cenedlaethol yn elfen lwyddiannus o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ac yn fesur iechyd ataliol hanfodol. Mae'n broses sy'n cymryd llawer o amser fodd bynnag, ac mae angen i imiwneiddio gael ei gyflwyno gan nyrsys â chymwysterau uchel Band 5 a 6⁹, ac felly'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddefnyddio cymysgedd sgiliau.
- 1.8 Mae'r rhaglen sgrinio yn helpu adnabod yn gynnar blant sydd â phroblemau gyda'r golwg neu'r clyw; fodd bynnag, er bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan ddefnyddio cymysgedd sgiliau mewn rhai ardaloedd, nid yw hynny'n digwydd ymhobman.
- 1.9 Yn gyffredinol, mae'r defnydd o gymysgedd sgiliau mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn amrywiol iawn, ac mae angen eglurder ar lefel genedlaethol ynghylch pa weithgareddau y dylid eu dirprwyo a pha rai na ddylid.
- 1.10 Mae'r ymchwil wedi codi cwestiynau ynghylch eglurder sail resymegol y Rhaglen Mesur Plant, yn wyneb diffyg capasiti cyffredinol i ddarparu cymorth dilynol i blant sydd o dan bwysau neu dros bwysau.
- 1.11 Mae rôl nyrsys ysgol mewn achosion diogelu hefyd wedi cael ei amau drwy'r ymchwil hwn, oherwydd y swm mawr o adnoddau y mae'n ei olygu, yn ogystal â'r ffaith mai cyfyngedig yw adnabyddiaeth nyrsys ysgol o'r plant sydd ynghlwm wrth achosion o'r fath, ac mewn llawer achos nid oes ganddynt adnabyddiaeth uniongyrchol o gwbl.

⁹ Mae hyn oherwydd bod imiwneiddio'n cael ei gyflwyno o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion, sy'n rhoi fframwaith cyfreithiol i alluogi rhai gweithwyr proffesiynol cofrestredig iechyd i gyflenwii a/neu gweini meddyginiaethau penodedig i grŵp a rag-ddiffiniwyd o gleifion, heb iddynt orfod gweld rhagnodydd (megis rhagnodydd sy'n feddyg neu nyrs).

- 1.12 Mae galwad sylweddol ar i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ganolbwyntio mwy ar hybu iechyd mewn meysydd fel bwyta iach, addysg rhyw ac ysmygu, defnydd o alcohol a chyffuriau, er mwyn cyflawni rôl fwy ataliol.
- 1.13 Nid oes system ar waith ar hyn o bryd i dargedu ardaloedd o amddifadedd gyda gwasanaethau nyrsio mwy dwys mewn ysgolion yn yr un ffordd ag y caiff gwasanaethau estynedig ymwelwyr iechyd eu cyflwyno trwy Dechrau'n Deg.
- 1.14 Nid yw'n syndod fod galwad gref am fuddsoddi yng ngweithlu nyrsio ysgolion yn gyffredinol yn wyneb y galwadau cynyddol ar y gwasanaeth o ran diogelu, yr ymrwymiad a bennir ym mholisi allweddol Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn atal, a'r pwyslais cynyddol ar salwch meddwl.

Goblygiadau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn y dyfodol

- 1.15 Ar sail y canfyddiadau a amlinellir yma, mae rhai mesurau allweddol y gallai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill eu mabwysiadu i wella gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ailedrych ar sail resymegol y Rhaglen Mesur Plant gyda rhanddeiliaid perthnasol, cenedlaethol ac o fyrddau iechyd¹⁰ ac, os yn addas, cytuno ar fesurau dilynol safonedig i'w cymryd gan dimau nyrsys ysgol mewn perthynas â phlant sydd y tu allan i bamedrau pwysau iach.
 - Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill i ystyried perthnasedd a gwerth cyfraniad nyrsys ysgol mewn achosion diogelu ac, os yn addas, cytuno ar y lefel addas o gyfraniad gan nyrsys ysgol yn y dyfodol.
 - Diffinio rhaglen isafswm addas o weithgareddau hybu iechyd i gael eu cyflawni gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ym mhob rhan o Gymru.
 - Cynnal archwiliad cynhwysfawr o dimau nyrsio mewn ysgolion ledled Cymru i amlygu graddau bylchau a phrinder mewn staff ac adnoddau¹¹.
 - Diffinio strwythur staffio delfrydol sy'n seiliedig ar gymysgedd addas o sgiliau ac egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.

¹⁰ Er enghraifft, Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru a nyrsys ysgol arweiniol ym mhob bwrdd iechyd.

¹¹ Gellid gwneud hyn yn fewnol gan bob nyrs ysgol arweiniol, gan ddefnyddio pro forma safonedig a ddatblygwyd yn genedlaethol.

- Cyflwyno system ffurfiol o fonitro a gwerthuso gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol ac ystyrlon.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer sicrhau bod byrddau iechyd yn buddsoddi yn y staff a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r rhaglen imiwneiddio cenedlaethol, y rhaglen sgrinio a'r rhaglen o isafswm diffiniedig o hybu iechyd¹².
- Ystyried cyfleoedd am raglen genedlaethol sy'n darparu cymorth dwysach trwy wasanaethau nyrsio mewn ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a/neu cinio ysgol am ddim.

¹² Ac, os yw'n briodol, y Rhaglen Mesur Plant a'r cyfrifoldebau diogelu angenrheidiol.

2. Cyflwyniad

Trosolwg o Raglen Plant Iach Cymru

- 2.1 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru, rhaglen iechyd gyffredinol i bob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng 0 a 7 mlwydd oed, wedi cael ei chyflwyno'n raddol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru ers mis Hydref 2016.
- 2.2 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn seiliedig ar y cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol¹³ ac felly, mae'n nodi set isafswm o ymyraethau allweddol i bob teulu, waeth beth fo'u hangen. Wrth gydnabod y bydd ar rai teuluoedd angen graddau dwysach o ymyraeth, mae'r Rhaglen hefyd yn sefydlu fframwaith ar gyfer darparu lefelau estynedig a dwys o gymorth ac ymyrraeth, ar sail asesiad a dadansoddiad o wydnwch ac adnabod angen ychwanegol¹⁴.
- 2.3 Mae'r Rhaglen yn pennu pa gysylltiadau a drefnir y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, o'r adeg y trosglwyddir o wasanaeth mamolaeth hyd at flynyddoedd cyntaf ysgol. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn â phawb yn ymwneud â thri maes ymyrraeth:
- sgrinio
 - imiwneiddio
 - monitro a chefnogi datblygiad plant (cadw gwylidwriaeth).
- 2.4 Penodwyd Miller Research ym mis Hydref 2017 i weithredu [gwerthusiad ffurfiannol o Raglen Plant Iach Cymru](#).

¹³ Mae cyffredinolaeth gynyddol yn diffinio gwasanaethau a ddarperir i bawb ac sydd wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu'n systematig i ddarparu continiwm o gymorth yn unol ag angen.

¹⁴ Am fwy o fanylion o'r gwahanol raddau o ddarpariaeth a gynigir o dan raddau Cyffredinol, Dwys ac Estynedig o'r Rhaglen, gweler [Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru](#).

Gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion a'u cysondeb â Rhaglen Plant Iach Cymru

- 2.5 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn gofalu am blant hyd at saith oed ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau cadw gwyliadwriaeth¹⁵ a sgrinio¹⁶ i'w darparu gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion i blant oedran ysgol gynradd.
- 2.6 Er bod y Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion yn pennu'r rhaglen imiwneiddio y dylai pob plentyn oedran ysgol ei derbyn, a swyddogaethau allweddol y rôl nyrsio mewn ysgolion mewn termau cyffredinol, nid oes ar hyn o bryd raglen benodedig o sgrinio a chadw gwyliadwriaeth mor fanwl â Rhaglen Plant Iach Cymru¹⁷ i blant hŷn na saith oed.
- 2.7 Er mwyn cael sail o wybodaeth ar gyfer llunio polisi yn y dyfodol ar beth y dylai gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu cynnwys yng Nghymru, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research i gynnal ymchwil cwmpasu i'r ffordd y caiff gwasanaethau nyrsio ysgolion eu cyflwyno ar hyn o bryd ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Nodau ac amcanion yr ymchwil

- 2.8 Prif nod yr ymchwil oedd darparu sail dystiolaeth o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ar hyn o bryd yng Nghymru. Amcanion penodol yr ymchwil oedd:
- deall beth mae rhanddeiliaid yn ei weld fel rôl a swyddogaeth gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion
 - egluro'r gwasanaethau cyffredinol ac estynedig a gyflwynir gan nyrsys ysgol ar hyn o bryd
 - darganfod unrhyw anghysondebau yn y gwasanaethau a gyflwynir, gan gynnwys enghreifftiau o'r arferion gorau

¹⁵ Yn benodol, Adolygiad Iechyd Nyrs Ysgol, a gynigir i blant oedran dosbarth derbyn (4-5 oed) a dylai gynnwys: trosglwyddo ffurfiol neu anffurfiol o'r ymwelydd iechyd i'r nyrs ysgol, holiadur i'w gwblhau gan y rhiant/gofalwr ynghylch statws iechyd ac imiwneiddio presennol y plentyn a gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a ddarperir i rieni/gofalwyr. Am fwy o fanylion, gweler: [Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru](#)

¹⁶ Mae'n ofynnol gan Raglen Plant Iach Cymru i'r canlynol gael eu cwblhau "yn fuan ar ôl mynediad i'r ysgol" neu "erbyn 5 oed": sgrinio am nam ar y clyw, sgrinio am nam ar y golwg a'r Rhaglen Mesur Plant.

¹⁷ Sef, beth ddylai gael ei wneud, pryd a lle dylai gael ei wneud, a phwy ddylai ei wneud.

- darganfod sut caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu dogfennu a'u monitro ar hyn o bryd
- archwilio sut mae nyrsys ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau eraill
- cael barn rhanddeiliaid ar feysydd lle mae angen gwella mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion.

3. Methodoleg yr ymchwil

Trosolwg o'r fethodoleg

3.1 Roedd methodoleg yr ymchwil cwmpasu hwn yn gyfan gwbl ansoddol ei natur ac yn cynnwys:

- adolygiad desg o ddogfennaeth polisi a chanllawiau
- cyfweiliadau ffôn gydag aelodau Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru¹⁸ a rhanddeiliaid perthnasol eraill
- cyfweiliadau ffôn gyda nyrsys ysgol arweiniol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru^{19,20}
- cyfweiliadau ffôn gyda nyrsys ysgol o amrywiol fandiau²¹ o bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol
- cyfweiliadau ffôn gydag ymarferwyr addysgu mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ledled Cymru.
- cyfweiliadau ffôn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru.

Adolygiad desg

3.2 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennaeth polisi a chanllawiau ar gychwyn ar ymchwil, a oedd yn cynnwys:

- [Rhaglen Mesur Plant 2017/18](#)
- [Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru 2017](#)
- Elfen Ymwelwyr Iechyd a Nyrsio Iechyd 0-7 oed mewn Ysgolion Rhaglen Plant Iach Cymru
- Trosolwg ar Raglen Plant Iach Cymru

¹⁸ Mae Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru wedi ei ffurfio o gynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Fforwm Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Iechyd Ysgol Cymru Gyfan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Grŵp Imiwneiddio Cymru a rhaglen imiwneiddio a brechu Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prif Swyddog Nyrsio Iechyd Atgennedloll Menywod, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac amrywiol fyrdau Iechyd.

¹⁹ Mewn un achos, cynhaliwyd y cyfweiliad gyda'r rheolwr nyrsio, yn absenoldeb y nyrs ysgol arweiniol.

²⁰ Yn benodol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

²¹ Mae swyddi nyrsio wedi eu cysoni â bandiau tâl Agenda ar gyfer Newid. Mae gan bob un o'r bandiau tâl nifer o bwyntiau tâl.

- [Pecyn cymorth Coleg Brenhinol y Nyrsys i Nyrsys Ysgol \(2017\)](#)
- [Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru](#)
- [Cod drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru \(2018\).](#)

Dull gweithredu'r gwaith maes

- 3.3 Cafwyd caniatâd i gymryd rhan yn yr ymchwil gan arweinwyr nyrsys ysgol ym mhob bwrdd iechyd a chafodd ymarferwyr eu recriwtio trwy arweinwyr timau yn yr ardal berthnasol. Gwnaed pob cyfweiliad dros y ffôn ac fe'u trefnwyd gan arweinwyr tîm a staff gweinyddol. Gan nad oedd y comisiwn yn cyrraedd y [diffiniad o ymchwil](#) a ddefnyddir gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, ni cheisiwyd cymeradwyaeth foesegol ffurfiol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- 3.4 Digwyddodd y gwaith maes rhwng mis Mai 2019 a mis Gorffennaf 2019. Fe wnaeth y tîm ymchwil gyfweld yr amrywiol weithwyr proffesiynol iechyd ar sail un-i-un o bob un o'r byrddau iechyd, gyda chyfweiliadau'n parhau rhwng 45 munud ac awr. Gweler Atodiad 1 am y canllawiau pwnc llawn a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau.

3.5 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o sampl yr ymchwili yn ôl grŵp proffesiynol ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd:

Grŵp proffesiynol	Cyfanswm y nifer a gyfwelwyd
Rhanddeiliaid cenedlaethol ²²	7
Nyrsys Ysgol Arweiniol ²³	8 ²⁴
Nyrsys Ysgol	26
Gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn gweithio	7
Staff Addysgu	13
Cyfanswm	61

²² Roedd hyn yn cynnwys amrywiol gynrychiolwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a chynrychiolaeth o Wasanaeth Gwybodaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon.

²³ Neu rywun arall a ddirprwywyd.

²⁴ Roedd hyn yn cynnwys dwy o'r tair nyrs ysgol arweiniol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

²⁵ Roedd hyn yn cynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith a chydgyssylltwyr Ysgolion Iach.

- 3.6 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o sampl staff gweithredol yr ymchwil yn ôl bwrdd iechyd²⁶:

Bwrdd iechyd	Nyrsys Ysgol	Staff Addysgu	Gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn gweithio mewn ysgolion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	4	5	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	6	1	2
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	3	3	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	4	1	0
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	3	1	0
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	3	1	2
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	3	1	1
Cyfanswm	26	13	7

- 3.7 Cafodd y cyfweiliadau eu trawsgrifio yn y fan a'r lle a'u dadansoddi gan ddefnyddio meddalwedd mapio meddwl dadansoddi ansoddol [Mindmeister](#).

²⁶ Nid yw hyn yn cynnwys rhanddeiliaid cenedlaethol a nyrsys ysgol arweiniol.

4. Cefndir a chyd-destun polisi

Rhaglen Plant Iach Cymru

- 4.1 Fel rhan o adolygiad GIG Cymru o wasanaethau blynyddoedd cynnar, roedd byrddau iechyd yn cytuno y byddai manteision sylweddol yn deillio o gael dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer gwyliadwriaeth plant, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a theulu yng Nghymru yn derbyn yr un gwasanaeth, lle bynnag maent yn byw. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir gan ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol (nyrsys iechyd cyhoeddus arbenigol cymunedol). Arweiniodd yr adolygiad hwn at greu Rhaglen Plant Iach Cymru, yr hyn a gaiff ei ystyried bellach yn gam cyntaf y Rhaglen.
- 4.2 Craidd y Rhaglen yw amserlen gyffredinol y cytunwyd arni ar gyfer Cymru gyfan²⁷ o gysylltiadau ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol ar gyfer pob plentyn, gydag ymyraethau estynedig²⁸ a dwys²⁹ yn cael eu cyflwyno i'r teuluoedd a phlant hynny sydd â graddau uwch o angen.
- 4.3 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd pob plentyn a theulu'n cael cynnig Rhaglen Plant Iach Cymru. Caiff y rhaglen ei seilio ar y cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol a'i nod yw darparu cyfres o ymyraethau allweddol i bob teulu sydd â phlant, waeth beth fo'r angen, er mwyn sicrhau cynnig cyson ledled Cymru. I rai teuluoedd mae angen am ymyraethau ychwanegol er mwyn hwyluso cymorth mwy dwys. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cysylltiadau ychwanegol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd neu atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill fel therapyddion lleferydd ac iaith neu wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS)³⁰.

²⁷ Dyma'r ymyraeth graidd, yr isafswm a gynnigir i bob teulu, waeth beth yw eu hangen.

²⁸ Ymyraethau ychwanegol yw'r rhain sy'n seiliedig ar yr asesiad a'r dadansoddiad o wydnwch ac ar adnabod angen ychwanegol.

²⁹ Ymyraethau pellach yw'r rhain, a ddatblygir ar sail asesiad a dadansoddiad parhaus o fwy o angen.

³⁰ Am fwy o fanylion o gymorth cyffredinol, estynedig a dwys o dan Raglen Plant Iach Cymru gweler Llywodraeth Cymru (2016). *Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cyd-destun polisi a chydawnsedd strategol

- 4.4 Caiff pwysigrwydd galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymddygiadau iach trwy eu blynyddoedd ffurfiannol ei gydnabod trwy holl bolisi Cymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu, [Symud Cymru Ymlaen](#), yn pennu ymrwymadau Llywodraeth Cymru o 2016 i 2021 ac yn cadarnhau cyflawni ymrwymiad llywodraethol i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. [Ffyniant i Bawb](#) yw'r strategaeth genedlaethol ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn *Symud Cymru Ymlaen*. Blynyddoedd cynnar yw un o'r pum maes blaenoriaeth trawsbynciol y llywodraeth o fewn *Ffyniant i Bawb*, wrth gydnabod bod blynyddoedd cynnar y chwarae rhan allweddol wrth benderfynu siawns unigolyn o arwain bywyd iach, ffyniannus a chyflawn pan yn oedolyn. Gweledigaeth y strategaeth ar gyfer blynyddoedd cynnar yw cyflwyno cymorth priodol i bob plentyn, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn torri'r cylch tlodi, lliniaru effaith [Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod](#), codi dyheadau a chyraeddiadau cyffredinol, lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo llesiant. Mae *Ffyniant i Bawb* yn amlygu pwysigrwydd 'rhianta hyderus, cadarnhaol a gwydn' wrth ddarparu amgylchedd cefnogol ac ysbrydoledig ar gyfer datblygiad plant. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â bod yn rhiant ac yn dangos yr angen am help a chefnogaeth y gellir ei addasu yn ôl amgylchiadau teuluoedd unigol. Fel blaenoriaeth trawsbynciol, mae gan flynyddoedd cynnar oblygiadau i lawer o'r meysydd polisi y rhoddir sylw iddynt o fewn y strategaeth gan gynnwys addysg a dysgu, iechyd a llesiant a thai.

Nyrsio mewn ysgolion

- 4.5 Caiff gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion ei ddarparu gan nyrs arbenigol cymunedol iechyd cyhoeddus (SCPHN) a nyrsys proffesiynol eraill sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion. Yng Nghymru, ers 2009, y canllawiau yw bod un nyrs arbenigol SCPHN benodedig yn cael ei dynodi ar gyfer pob ysgol

uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Yn 2015 roedd 70³¹ o nyrsys ysgol llawn-amser yn cael eu cyflogi yng Nghymru³² a [207 o ysgolion uwchradd](#), gan ddangos bod byrddau iechyd ymhell o gyrraedd gofynion y canllawiau hyn. Trwy weithio mewn dull clwstwr fel hyn, dylai fod parhad i blant a phobl ifanc wrth iddynt gamu ymlaen o ysgol gynradd i ysgol uwchradd y dalgylch.

- 4.6 Mae'r nyrs ysgol wedi ei lleoli fel arfer y tu allan i safle'r ysgol ac mae ar gael i ysgolion trwy gyswllt e-bost a ffôn am gymorth a chynghor.
- 4.7 Rôl sylfaenol y nyrs ysgol yw 'cydgysylltu a gweithredu ymyraethau iechyd cyhoeddus'.³³ Maent yno i gyflawni swyddogaeth rheolwr llinell sy'n arwain tîm i weithredu gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion. Mae timau nyrsys ysgol yn rhan o ddull ehangach o hybu a diogelu iechyd sy'n cynnwys amryw o wahanol asiantaethau.³⁴ Mae'r canllawiau'n awgrymu y gellir diwallu anghenion cymhleth yn effeithiol trwy weithredu fel cydgysylltwyr ymyraethau.
- 4.8 Mae disgwyl i'r rôl amrywio 'ar sail asesiad o anghenion plant penodol o fewn ysgol / grŵp o ysgolion, yn hytrach na'r math o ysgolion neu leoliad addysgol'.³⁵ Mae'r pwyslais ar 'wasanaethau iechyd cyhoeddus cyfannol, unigoledig ar lefel cymunedol a phoblogaeth'³⁶ yn ogystal â chefnogi a chyfrannu at yr agenda iechyd cyhoeddus i blant a phobl ifanc mewn oedran ysgol. Fel enghraifft, mae gan nyrsys ysgol 'ran i'w chwarae wrth adnabod a chefnogi plant a phobl ifanc a all fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'.³⁷ Mae disgwyl i bob achos fod yn benodol iawn i blentyn neu berson ifanc unigol waeth beth fo'u lleoliad addysgol.

Amcanion nyrsio mewn ysgolion

- 4.9 Nod gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yw darparu gwasanaeth iechyd mewn lleoliad addysgol er budd uniongyrchol disgyblion a rhieni. Yn ogystal, mae disgwyl i nyrsio mewn ysgolion chwarae rhan mewn cwricwlwm sy'n ceisio creu

³¹ *An RCN Toolkit for School Nurses: Supporting your practice to deliver services for children and young people in educational settings* (2017) tudalen 8.

³² I fyny o 41 yn 2009

³³ *An RCN Toolkit for School Nurses* (2017) tudalen 10

³⁴ *Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru* (2017) tudalen 11

³⁵ *An RCN Toolkit for School Nurses* (2017) tudalen 4

³⁶ *Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru* (2017) tud 4

³⁷ *Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru* (2018) tudalen 67

unigolion iach a fydd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu llesiant eu hunain.

- 4.10 O safbwynt plant a phobl ifanc, mae angen i nyrsio mewn ysgolion fod yn wasanaeth rhagweithiol sydd ar gael iddynt yn unol â'u hanghenion iechyd a llesiant. Bydd disgyblion a rhieni'n cael cynnig cyngor ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael i ymdrin â'u pryderon. Gall hyn amrywio o gymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl, mynediad at gyngor ar roi'r gorau i ysmegu a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â chyngor ar iechyd rhywiol a beichiogrwydd.
- 4.11 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru o'r farn y dylai gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion gael eu sylfaenu ar y cysyniad o gyffredinolath gynyddol, gyda'r elfennau craidd yn cael eu cynnig trwy ddull 'tîm o amgylch y plentyn' ar dair lefel.
- Mae **Cyffredinoled** gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i gyswllt a gwasanaethau gael eu cynnig i bob plentyn, waeth beth fo'u hamgylchiadau. Mewn cyd-destun nyrsio mewn ysgolion caiff hyn ei dderbyn fel amser byr iawn ar gyfer cyswllt gorfodol. Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yn rhoi ffigur ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan o ddeuddeg munud yn unig, i bob plentyn y flwyddyn, ar gael pe bai ar bob plentyn eisiau gweld nyrs ysgol.³⁸ Mae gweithredu'r gwasanaeth yn seiliedig ar y dybiaeth o adnabod ac asesu cynnar, gan gynnwys gweithredu rhaglenni sgrinio ac imiwneiddio cenedlaethol.
 - Gwasanaeth **Estynedig** sy'n gofyn am ymyraethau ychwanegol ar sail asesu parhaus ac adnabod angen ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei benderfynu gan angen unigol ac yn arwain at asesu ychwanegol a chyfeirio at wasanaethau arbenigol. Neu gallai fod yn angen iechyd cyhoeddus lleol sydd wedi cael eu adnabod, a bydd y nyrs ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ymdrin â hyn.

³⁸ *An RCN Toolkit for School Nurses* (2017) tudalen 5

- Gwasanaeth **Dwys** sy'n mynd ymhellach ar sail asesu parhaus ac adnabod angen ychwanegol.
- 4.12 Nod nyrsio mewn ysgolion yw darparu'r un gwasanaeth mewn ysgol arbennig ag mewn unrhyw leoliad ysgol arall. Yn wyneb natur gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, ac amodau lleoliad ysgol arbennig, mae'r disgwyl i'r rôl 'gyfateb â lefelau Estynedig a Dwys y model.'³⁹
- 4.13 Gwelir eisoes bod nyrsio mewn ysgolion yn gyson â chynllun ehangach Rhaglen Plant Iach Cymru. Trwy barhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau ymwelwyr iechyd, dylid darparu parhad gwasanaeth o enedigaeth at fod yn oedolyn ifanc.⁴⁰ Dylai timau nyrsio mewn ysgolion fod yn rhan o ddull amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ehangach o hybu a diogelu iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru.⁴¹
- 4.14 Nod pellach i nyrsio mewn ysgolion yw creu proffil iechyd ysgol gyfan a chytuno ar gynllun gweithredu mesuradwy gyda phrifathrawon ac aelodau eraill o staff sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau. Disgwylir y bydd gorgyffwrdd gyda'r Cydgysylltydd Ysgolion Iach y byddant yn gweithio gyda hwy i fynd i'r afael ag anghenion iechyd ar lefel poblogaeth a adnabuwyd yn lleol a chefnogi mentrau timau iechyd cyhoeddus lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Canllawiau

- 4.15 Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yn darparu canllawiau i nyrsys ysgol trwy becyn cymorth i ledaenu'r arferion gorau. Mae'r pecyn cymorth yn rhoi gwybodaeth i nyrsys ysgol, ynghyd ag enghreifftiau o arferion da, templedi a gwefannau perthnasol i gefnogi a datblygu arferion proffesiynol.⁴² Gyda'r canllawiau hyn ar gyfer yr holl Deyrnas Unedig, mae pecyn cymorth Coleg Brenhinol y Nyrsys yn cydnabod ac yn dangos y gwahaniaethau rhwng y pedair gwlad, felly mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn weddol gyffredinol er mwyn bod yn berthnasol i amgylchiadau lleol. Yn wyneb natur amrywiol y rôl ar lawr gwlad, mae disgwyl y

³⁹ *Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion Rhan 2 – Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig* (2018) tudalen 3

⁴⁰ *Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru* (2017) tudalen 12

⁴¹ *Ibid*, tudalen 11

⁴² *An RCN Toolkit for School Nurses* (2017) tudalen 4

bydd amodau ysgolion arbennig yn penderfynu sut fath o nyrsio fydd yn digwydd mewn ysgolion o ddydd i ddydd a bydd fframweithiau rhanbarthol yn eu lle i gynnig canllawiau mwy penodol.

- 4.16 Cyhoeddwyd [Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru](#) yn 2017 gyda Rhan 2 dilynol yn 2018 ar gyfer ysgolion arbennig. Mae'r fframwaith newydd yn cynnwys deddfwriaeth Gymreig megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) ac ethos Rhaglen Plant Iach Cymru, astudiaeth Cymru o Brofiadau Niweidiol mewn Plentynod ac egwyddorion gofal iechyd darbodus. Mae'r Fframwaith yn pennu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn diogelu, llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, safonau imiwneiddio i bob plentyn oedran ysgol, a safonau ar gyfer gweithredu rhaglen mesur plant Cymru. Mae hefyd yn cynnig eglurder ar sut y dylid strwythuro gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru: "Yr athroniaeth gyffredinol yn y ddogfen ddiwygiedig hon yw ailddatgan y disgwyliad er mwyn sicrhau y bydd gan bob ysgol uwchradd brif ffrwd a'i chwstwr o ysgolion cynradd partner wasanaeth nyrsio SCPHN (SN) unigryw a enwyd yn seiliedig ar lefel anghenion, a thîm sydd â chymysgedd perthnasol o sgiliau, a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol drwy gydol y flwyddyn."
- 4.17 Mae Iechyd a Llesiant yn ffurfio un o'r chwe maes cwricwlwm yng Nghwricwlwm newydd Cymru 2022, a ddatblygwyd ar sail tystiolaeth o [Dyfodol Llwyddiannus](#). Bu *'Adroddiad Donaldson'* yn ymdrin â'r polisïau a drafodir uchod trwy nodi'r angen i greu 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i arwain bywydau cyflawn fel aelodau o gymdeithas' fel un o bedwar diben y cwricwlwm. Mae lle i ganllawiau ychwanegol ar gyfer nyrsys ysgol yma, sy'n ailadrodd y pwyslais ar rifiedd a llythrennedd, gydag iechyd a llesiant yn themâu trawsbynciol drwy'r cwricwlwm.

5. Canfyddiadau allweddol

Canfyddiad o rôl Nyrsio mewn Ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd

Rôl Nyrsys Ysgol

- 5.1 Mae nyrsys ysgol yn disgrifio’u rôl fel un sy’n pontio’r bwlch rhwng iechedd ac addysg, sy’n ei gwneud yn ofynnol iddynt gefnogi datblygiad plant iach o fewn y system addysg trwy ddarparu iddynt wasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion unigol.
- 5.2 Cafodd rôl iechedd cyhoeddus a hybu iechedd nyrsys ysgol ei grybwyll yn helaeth fel rhywbeth sy’n cael ei gyflwyno i blant a phobl ifanc gyda’i gilydd ar y cyd: *“Ymwneud ag iechedd a llesiant y boblogaeth yn fwy nag unigolion.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.3 Gall hyn olygu y gall nyrsys ysgol fod yn anweledig yn aml i’r mwyafrif o blant ysgol: *“Os nad ydych chi o ‘deulu cythryblus’ fyddwch chi ddim yn gweld y nyrs ysgol.”* (Nyrs ysgol). Roedd rhai o’r rheini sy’n gweithio yn y sector yn disgrifio’r rôl ymarferol mewn termau eithaf negyddol, yn wynebu maint nodweddiadol lwyth achosion nyrs ysgol, sy’n tanseilio’u gallu i gyflwyno’u rôl iechedd cyhoeddus: *“[mae nyrsys ysgol yn] ‘Jack of all trades – master of none’. Cael ein llesteirio gan waith diogelu. Mae 2,000-2,500 ar lwyth achos yn ormod.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- “Mae llwythi achosion yn rhy fawr – rydym yn wasanaeth anweledig iawn a ddim yn gallu bod mor rhagweithiol ag y gallem fod.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.4 Roedd ymarferwyr ysgol yn tueddu i ddisgrifio nyrsys ysgol fel ffynhonnell o arweiniad a chynghor ar unrhyw beth sy’n gysylltiedig ag iechedd, er bod llawer yn teimlo bod y rôl wedi cael ei herydu dros y blynyddoedd diwethaf a bod y nyrs ysgol yn llai gweladwy ac yn llai hygyrch nag o’r blaen: *[mae’r rôl wedi] “...newid yn aruthrol dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd, os oes gennym bryder, gallwn gysylltu â hi a gofal am gyngor, ond heblaw am hynny, anaml y mae hi’n dod.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)

- 5.5 Roedd amryw o nyrsys ysgol yn awgrymu bod ysgolion yn aml heb fod yn deall eu rôl a'r math o wasanaethau a gynigir trwy nyrsio mewn ysgolion – ac efallai, yn fwy allweddol, beth *nad* ydynt yn gyfrifol am ei wneud: *“Dyw ysgolion ddim yn deall bod ein rôl yn bennaf yn ymwneud â hybu iechyd, nid cymorth cyntaf na glynu plastr”*. (Nyrs ysgol)
- 5.6 Yn yr un modd, mae ysgolion wedi galw am well dealltwriaeth o gylch gwaith nyrsio mewn ysgol: *“Byddai’n braf i mi gael gwybod mwy am y darlun llawnach y tu ôl i nyrsio mewn ysgolion – yr hyn maen nhw’n ceisio’i gyflawni, gan nad ydw i ddim yn gwybod.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)
- “Byddai gallu gweld beth yn hollol yw eu cylch gwaith [yn welliant i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion], a dyna yw’r hyn mae angen i’r ysgol ei wneud i helpu hynny. [Mae angen] rhyw fath o gytundeb rhwng y nyrs a’r ysgol. Cylch gorchwyl.”* (Prifathro, ysgol gynradd)
- 5.7 Dim ond un ymarferydd addysgu a oedd wedi clywed am y Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion, ond nid oedd yn gwybod beth oedd ynddo.
- 5.8 Roedd gweithwyr proffesiynol iechyd eraill a oedd yn gweithio mewn ysgolion yn tueddu i ddiffinio’u rôl fel un eithaf gweithredol, yn rhoi brechiadau, sgysiau am hylendid a bwyta iach a mynd i gynadleddau achosion amddiffyn plant.

Cyflwyno gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion

Gwasanaethau cyffredinol

- 5.9 Nyrsys ysgol sy’n gyfrifol am gyflwyno’r Rhaglen Mesur Plant. Mae’r rhaglen wyliadwriaeth hon wedi cael ei sefydlu i gasglu data yn flynyddol ar daldra a phwysau plant ym Mlwyddyn Un. Roedd rhai nyrsys ysgol yn amau moeseg casglu’r data hwn heb adnoddau penodol i gefnogi plant y bernir bod ganddynt fynegai màs corfforol (BMI) ‘afiach’:
- “Er mwyn i’r [Rhaglen Mesur Plant] fod yn werth ei gwneud, mae angen inni wneud mwy i gysylltu â rhieni’r plant gordew hyn a’u helpu nhw i wneud newidiadau effeithiol i’w ffordd o fyw.”* (Nyrs ysgol)

- 5.10 Yn y mwyafrif o achosion, bydd nyrsys ysgol (Band 5 neu 6⁴³) yn ffonio rhieni plant sydd o dan bwysau neu dros bwysau. Fodd bynnag, y teimlad yn aml oedd nad oedd hyn yn cael fawr o effaith gan fod rhieni naill ai'n anystyriol o'r broblem neu wedi cael ymarferwyr ieched eraill yn dweud wrthynt fod angen rhoi sylw i bwysau eu plentyn.
- 5.11 Mewn rhai achosion, bydd y cyswllt hwn gyda rhieni yn arwain at gynnig asesiad ieched gwirfoddol i'r rhieni, ond ni chaiff hyn ei safoni ar draws pob bwrdd ieched ac mae llawer o rieni'n gwrthod yr asesiad pan gaiff ei gynnig. Roedd un nyrs ysgol wedi cyflwyno sesiynau maeth a bwyta iach mewn ysgolion gyda nifer sylweddol o blant dros bwysau.
- 5.12 Roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu y gellid cael gwared yn gyfangwbl ar y rhaglen mesur plant neu ei disodli gan drefn o fesur pwysau a thaldra sampl yn unig o blant. Byddai hyn â'r potensial o ddarparu adnoddau ychwanegol a allai fynd at dargedu cynlluniau bwyta iach ac ymarfer corff.
- 5.13 Er nad oedd yr holl nyrsys ysgol a gyfwelwyd yn negyddol ynghylch y rhaglen mesur plant, nid oedd neb yn gallu nodi unrhyw fantais i'r rhaglen o safbwynt ieched a llesiant plant bach.
- 5.14 Ochr yn ochr â'r rhaglen mesur plant, mae plant ym Mlwyddyn Un yn cael profion golwg a chlyw. Trwy'r rhaglen sgrinio, caiff plant sydd â nam ar y golwg neu'r clyw eu hadnabod a'u hatgyfeirio wedyn at arbenigwyr ophthalmoleg ac awdioleg, fel bo'n addas.
- 5.15 Mae nyrsys ysgol yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu a chasglu holiadur ar gychwyn ysgol. Mae'r holiadur Cymru gyfan yn gofyn cwestiynau am ieched a llesiant cyffredinol plant oed dosbarth derbyn: *"Mae'n gymaint o hunan-asesu neu fodd o atgoffa'r rhiant – mae'n gosod syflaen ar gyfer cychwyn yn yr ysgol."* (Nyrs ysgol arweiniol). Roedd rhai nyrsys ysgol yn amheus o werth yr holiadur ar y sail ei fod yn drwm ar adnoddau i adolygu'r ffurflenni a gaiff eu cwblhau a bod yr ymatebion

⁴³ Gweler yr adran isod ar strwythurau staffio a ffyrdd gweithredol o weithio am fwy o fanylion ar y cymysgedd sgiliau.

yn aml heb fawr o werth iddynt: “*y cyfan ydyw’n aml yw cyfle i’r rhiant refru am eu plentyn.*” (Nyrs ysgol)

- 5.16 Gwasanaeth cyffredinol allweddol arall a gyflwynir gan nyrsys ysgol yw’r rhaglen imiwneiddio cenedlaethol, yn unol â’r Safonau Imiwneiddio i Blant Oed Ysgol a bennir yn y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion. Nid oes fawr o hyblygrwydd yn amserau’r rhaglen imiwneiddio, ac roedd llawer o nyrsys ysgol yn disgrifio imiwneiddio fel elfen graidd y gwasanaeth maent yn ei ddarparu, sy’n effeithio ar pa bryd ac i ba raddau y gallant gynnig gwasanaethau eraill. Bydd ysgolion gwahanol yn cynnig lefelau gwahanol o gefnogaeth wrth weithredu’r rhaglen; bydd rhai yn dosbarthu ac yn mynd ati’n rhagweithiol i gasglu ffurflenni caniatâd yn ôl i mewn ac yn anfon neges destun yn atgoffa rhieni i’w cwblhau, tra bod eraill yn ei adael yn gyfan gwbl i’r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion. Roedd llawer o nyrsys ysgol yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch yr amser sydd ynghlwm â mynd ar ôl ffurflenni caniatâd. Caiff y ffordd y cyflwynir imiwneiddio ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder isod, o dan cymysgedd sgiliau.
- 5.17 Yr elfen olaf mewn gwasanaethau nyrsio cyffredinol mewn ysgolion yw hybu iechyd; fodd bynnag, canfuwyd bod hyn yn un o’r gwasanaethau sy’n cael eu gweithredu fwyaf anghyson ar draws ysgolion yng Nghymru. Roedd llawer o randdeiliaid yn awgrymu bod eglurder annigonol yn y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion⁴⁴, ynghyd â diffyg adnoddau dynol i gyflwyno sesiynau ataliol i ddisgyblion ysgol a diffyg deunyddiau i gefnogi’r sesiynau hyn yn golygu mai dyma oedd y peth cyntaf i gael ei ollwng pan oedd blaenoriaethau eraill yn codi – yn enwedig diogelu (gweler isod) ac imiwneiddio, dau beth sydd â fframiau amser a gweithdrefnau sefydlog: “*Mae galwadau imiwneiddio a diogelu’n golygu nad ydym yn wneud y gwasanaeth ataliol.*” (Nyrs ysgol)

⁴⁴ Er enghraifft, o dan wasanaethau craidd mewn lleoliadau cynradd, mae’r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion yn pennu y bydd gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn: “*Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno sesiynau seiliedig ar dystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth sy’n ymdrin ag elfennau o’r Cwricwlwm Cenedlaethol sy’n ymwneud â bwyta’n iach.*” (Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion, t. 10)

- 5.18 Mae angen buddsoddiad hefyd mewn adnoddau sy'n addas i'r genhedlaeth. Roedd nyrsys ysgol yn disgrifio defnyddio'r un ffilmiau ar gyfer sgysiau ar ddod i aeddfedrwydd i Flwyddyn Chwech ag oeddent yn eu defnyddio yn 2004.
- 5.19 Yn y mwyafrif o ardaloedd caiff sesiynau ar iechyd rhywiol a dod i aeddfedrwydd eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd i ddisgyblion blwyddyn Pump a/neu Chwech ac mewn rhai achosion i ddisgyblion Cyfnod Allweddol Tri mewn ysgolion uwchradd:
- “Mae gennym fesurau penodol hybu iechyd rydym yn eu cyflwyno – sesiynau ystafell ddosbarth ar dyfu i fyny a dod i aeddfedrwydd ym mhob ysgol gynradd – blynyddoedd Pump a Chwech. Caiff sesiynau ystafell ddosbarth ar iechyd rhywiol hefyd eu cyflwyno i Flwyddyn Naw, os caniateir hynny [gan yr ysgol]. Mae un ysgol Gatholig nad yw'n gadael inni wneud hynny.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.20 Mae'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth am iechyd rhywiol yn amrywio rhwng ardaloedd byrddau iechyd a'i gilydd, ac o fewn yr ardaloedd hynny, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn rhai achosion, lle mae gwasanaethau cyhoeddus eraill (er enghraifft, yr heddlu) yn cyflwyno sesiynau iechyd rhywiol hefyd, mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion wedi ceisio'u cysoni gyda'r wybodaeth maent yn ei darparu: *“maen nhw [yr Heddlu] yn mynd ati o'r ongl gyfreithiol, ac rydym yn ceisio cydblethu â hynny, ond o safbwynt iechyd a llesiant.”* (Nyrs ysgol)
- 5.21 Effeithir ar gyflwyno gwybodaeth ar iechyd rhywiol hefyd gan bolisi addysg awdurdodau addysg unigol ac roedd nyrsys ysgol yn disgrifio gorfod gweithio'n wahanol mewn ardaloedd o fewn eu bwrdd iechyd:
- “Mae gennym her yn y ffordd mae'r tri awdurdod lleol yn gweithredu'n wahanol – er enghraifft, pan fyddwn ni'n gwneud addysg rhywiol, mewn rhai siroedd y cyfan a wnawn yw dweud wrth yr ysgolion beth rydym yn ei gyflwyno a mynd ymlaen â hynny, mewn un arall mae'r awdurdod lleol yn chwarae rhan wrth gynllunio a chyflwyno'r sesiynau.”* (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.22 Mewn rhai ardaloedd, yn hytrach na chyflwyno'r sesiynau eu hunain, mae nyrsys ysgol yn rhoi deunyddiau a/neu hyfforddiant i ysgolion wneud sesiynau eu hunain yn fewnol:

“Rydym yn trefnu bod adnoddau ar gael i athrawon Blwyddyn Chwech fel y gallan nhw gyflwyno addysg rhyw.” (Nyrs ysgol)

“Arferai'r nyrs ysgol wneud sgysiau dod i aeddfedrwydd ym Mlynnyddoedd Pump a Chwech, ond bellach mae ein staff wedi cael eu hyfforddi gan y nyrs ysgol i'w gyflwyno eu hunain.” (Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)

- 5.23 Roedd ymarferwyr ysgol a nyrsys ysgol mewn mwy nag un ardal bwrdd iechyd yn dweud nad yw sesiynau iechyd rhywiol a dod i aeddfedrwydd yn cael eu cyflwyno o gwbl, yn y mwyafrif o achosion gan nad oes gan y tîm nyrsys ysgol yr adnoddau i neilltuo'r amser i wneud hynny:

“Ar hyn o bryd mae'n ymddangos ein bod ni wedi cael ein gadael i'w wneud [cyflwyno gwybodaeth iechyd rhywiol] ar ein pen ein hun. Does neb i'w ffonio i ofyn am gyngor.” (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)

“Dylai fod pethau fel dod i aeddfedrwydd yn rhan o'r cynnig craidd, ond dydym ni ddim yn gwneud hyn.” (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.24 'Iechyd a llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol', a 'bwyta'n iach' yw'r ddau faes arall y pennir yn y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion y dylai nyrsys ysgol fod yn cyflwyno sesiynau arnynt mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Unwaith eto, fodd bynnag, nid oes gan bob gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yr adnoddau i ddarparu'r sesiynau hyn neu maent yn eu darparu mewn rhai ysgolion ond ddim mewn eraill – er enghraifft, mewn ymateb i gais penodol gan yr ysgol.

- 5.25 Mae diffyg amlwg o ran unrhyw gysondeb a pharhad yn y ffordd y caiff hybu iechyd ei wneud, ac roedd llawer o nyrsys ysgol yn cydnabod eu bod yn methu â chyflwyno'r hyn maent yn ei weld fel elfen allweddol o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion: *“Nid yw hybu iechyd yn digwydd bob amser oherwydd llwyth achosion imiwneiddio.”* (Nyrs ysgol)

- 5.26 Mewn sawl achos, roedd ysgolion ysgol Band 6 yn trafod eu cymhwyster (Nyrsio Cymunedol Arbenigol Iechyd Cyhoeddus – SCPHN) ac yn mynegi rhwystredigaeth nad oeddent yn gallu cyflawni agwedd iechyd cyhoeddus eu rôl: *“Byddai hybu iechyd a mynd ati’n fwriadol i ymyrryd yn iechyd plant yn hytrach nag adweithio i’r canlyniadau yn gwella arferion nyrsio mewn ysgolion yn aruthrol”* (Nyrs ysgol)
- 5.27 Mewn nifer o achosion, ni chaiff hybu iechyd ei gyflwyno ond yn dilyn cais penodol gan ysgol:
- “Weithiau rydym yn gwneud sesiynau ar fwyta iach a diogelwch yn yr haul, ond dim ond mewn ymateb i gais penodol gan gydweithwyr addysg, er enghraifft os oes ganddyn nhw lefelau uchel o ordewdra neu anhwylderau bwyta.”* (Nyrs ysgol)
- 5.28 Mewn gwirionedd felly, caiff hybu iechyd yn aml ei ddarparu fel gwasanaeth estynedig yn hytrach na gwasanaeth craidd. Mae hylendid, golchi dwylo, canser ceilliol, ymwybyddiaeth bronnau, profedigaeth, rheoli straen ac ysmygu a chyffuriau yn bynciau eraill a gyflwynir mewn rhai ysgolion gan nyrsys ysgol mewn rhai byrddau iechyd.
- 5.29 Mewn llawer o achosion, y catalydd ar gyfer cyflwyno’r sesiwn yw yr ysgol yn gwneud cais amdano o ganlyniad i bryder penodol gan un neu fwy o’r disgyblion, er enghraifft plentyn unigol yn dioddef profedigaeth yn y teulu, neu bryder am effaith pwysau arholiadau ar lesiant disgyblion: *“Dw i’n aml yn cael cais i wneud pethau ychwanegol, er enghraifft sesiynau bwyta iach gyda’r plant.”* (Nyrs ysgol)
- 5.30 Roedd hybu iechyd gyda materion mwy ‘meddygol’ – er enghraifft, canser ceilliol ac ymwybyddiaeth bronnau – yn cael eu crybwyll yn llai aml ac yn tueddu i gael eu cyflwyno yn ôl mympwy’r nyrs ysgol.
- 5.31 Mewn rhai ardaloedd, gwneir y penderfyniad i beidio â chyflwyno agwedd benodol o hybu iechyd oherwydd bod gwasanaethau eraill yn cyflawni’r rôl hon:

“Dydyn ni ddim yn gwneud ymwybyddiaeth cyffuriau – yn ein hardal ni mae ‘Dewisiadau’⁴⁵ yn gwneud hyn.” (Nyrs ysgol arweiniol)

Gwasanaethau Estynedig a Dwys

- 5.32 Ychydig iawn o fanylion a geir yn y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion ynghylch pa wasanaethau estynedig a dwys y dylid eu darparu. Dim ond rhwng gwasanaethau ‘craidd’ (term a ddefnyddir yn amlach na ‘cyffredinol’) ac ‘estynedig’ roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn gwahaniaethu, ac nid oedd neb yn rhoi disgrifiad clir nac enghraifft o wasanaethau ‘dwys’ na sut roeddent yn wahanol i rai ‘estynedig’.
- 5.33 Felly, nid yw’r adran ganlynol ond yn cyfeirio at wasanaethau ‘estynedig’ mewn cydnabyddiaeth mai dyma’r hyn roedd rhanddeiliaid yn eu galw, er y gellid o bosibl ddehongli rhai gweithgareddau (er enghraifft achosion diogelu a oedd ar waith) fel rhai ‘dwys’⁴⁶.
- 5.34 Roedd rhai ymarferwyr yn cydnabod diffyg cysondeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau estynedig eu dehongli a’u cyflwyno: *“Dydym ni [nyrsys ysgolion] ddim yn gwneud [gwasanaethau] estynedig yn yr un ffordd ag ymwelwyr ieched, gan fod y llwyth achosion mor anferth.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.35 Diogelu yw prif agwedd gwasanaethau estynedig, er bod llawer o nyrsys ysgol yn amau a oedd yn briodol iddynt fod yn ymwneud ag achosion amddiffyn plant. Roedd amryw o randdeiliaid yn awgrymu mai’r unig reswm roeddent yn mynd i gynadleddau achos oedd oherwydd angen am ‘lenwi seddau’ a chael rhywun yn y proffesiwn ieched:

“Dw i’n mynd i gynadleddau achos ar blant nad ydw i erioed wedi eu cyfarfod ... dw i’n mynd ar leched Plant i ddarganfod ydyn nhw dal i fyny gyda gofynion

⁴⁵ Gwasanaeth a gyllidir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

⁴⁶ Mae’r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion yn diffinio dwys fel: “ymyriadau pellach, ar sail asesu parhaus a dadansoddi anghenion mwy.” Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru, Llywodraeth Cymru 2017, t. 9.

imiwneiddio neu wedi colli unrhyw apwyntiadau ysbyty ... dw i ddm yn gwybod dim byd am y plentyn.” (Nyrs ysgol)

- 5.36 Teimlai amryw o nyrsys ysgol fod y Fframwaith newydd wedi cyfiawnhau lleihad yn eu hymwneud â chynadleddau achos trwy ddatgan y gellid darparu adroddiad ysgrifenedig yn hytrach na bod yn bresennol yn bersonol mewn cynadleddau achos cychwynnol, ac y dylai ‘doethineb proffesiynol’ benderfynu a ddylai nyrsys ysgol fod yn bresennol mewn cynadleddau adolygu dilynol.⁴⁷
- 5.37 Er hynny, roedd disgwyliadau awdurdodau lleol yn golygu’n ymarferol fod nyrsys ysgol yn aml yn teimlo dyletswydd i fod yn bresennol mewn cynadleddau achos a chynadleddau adolygu, ac yn sgil niferoedd cynyddol o achosion amddiffyn plant, mae hyn yn effeithio fwyfwy ar eu gallu i weithredu agweddau eraill (y dylai fod yn agweddau craidd) o’u rôl, yn enwedig hybu iechyd.
- 5.38 Yn ogystal, roedd amryw o nyrsys ysgol yn nodi bod ardaloedd sydd â lefelau uchel o broblemau diogelu⁴⁸ yn aml mewn cymunedau llai llewyrchus, a fyddai’n elwa fwyaf ar hybu iechyd:
- “nid yw gwaith atal yn cael ei gyflwyno i’r disgyblion sydd ei angen fwyaf oherwydd mae holl amser nyrsys ysgol yn cael ei gymryd i fynd i gynadleddau achos.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.39 Roedd lleiafrif o nyrsys ysgol yn teimlo mai diogelu oedd yr unig wasanaeth dwys a ddarperir trwy wasanaethau nyrsio mewn ysgolion, tra bod mwyafrif yr ymarferwyr yn gweld y gwasanaeth fel un dwy-haen yn unig (cyffredinol ac estynedig).
- 5.40 Mae’r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion yn datgan y dylai nyrsys ysgol, wrth gyflwyno gwasanaeth cyffredinol mewn ysgolion uwchradd: “Fod ar gael yn yr ysgol i roi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion a staff gael mynd atynt am gyngor /

⁴⁷ Yn benodol, mae’r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru yn datgan: “Dylai’r Nyrs Ysgol fynychu a/neu ddarparu adroddiad ysgrifenedig i bob cynhadledd achos cychwynnol ar gyfer plant 4/5 oed a hŷn yn unol â pholisi lleol ... Fel yr uchod, ac ar sail doethineb proffesiynol, gwneir penderfyniad ynghylch a yw presenoldeb Nyrs Ysgol yn angenrheidiol mewn cynhadledd adolygu ddilynol a/neu grŵp craidd.”

⁴⁸ Er enghraifft, camfanteisio yn ysgol plentyndod, masnachu mewn plant, esgeulustod, niwed corfforol/rhywiol, priodasau gorfodol a FGM.

cymorth.”⁴⁹ Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae hyn wedi cael ei ddehongli fel sesiynau galw i mewn i ddisgyblion ac yn cael ei ddiffinio fel gwasanaeth estynedig, gan ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau neu anghenion penodol.

- 5.41 Mae sesiynau galw heibio yn tueddu i gael eu cynnal yn wythnosol, ond mae'r amser y mae'r nyrsys ysgol ar gael yn amrywio ac efallai nad yw'n gyson o wythnos i wythnos yn yr un ysgol: *“Mae [sesiynau galw heibio] hanner diwrnod yr wythnos yn yr ysgol, ond nid ar ddiwrnod penodol.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)
- 5.42 Roedd llawer o nyrsys ysgol yn sôn am orfod canslo sesiynau galw heibio, yn amlwg ar y funud olaf, i fynd i gynadleddau achos, ac roedd ymarferwyr addysgu yn mynegi rhwystredigaethau ynghylch diffyg cysondeb a pharhad yn y gwasanaeth: *“Dydyn ni ddim yn gwybod o un wythnos i'r llall a yw hi'n dod, ac wedyn rydyn ni'n cael ein gadael yn ceisio cefnogi'r person ifanc ein hunain.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)
- 5.43 Gellir atgyfeirio disgyblion i'r sesiynau galw heibio gan athro neu feddyg teulu neu gallant hunan-atgyfeirio, a gall sesiynau ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys gorbryder ac iselder, anhwylderau bwyta, beichiogrwydd yn yr arddegau, trawsrywioldeb, straen a bwllo:
- “Fe fydd hi'n cynnig sesiynau un-i-un i fyfyrwyr a all fod ag anhwylderau bwyta – fe fydd hi'n eu pwysu a'u monitro a rhoi strategaethau iddyn nhw. Neu os bydd perthynas yn ymddangos yn un afiach – fel bachgen neu ddyn gormesol, fe fydd hi'n gweithio gyda nhw ar ofal a pharch.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)
- 5.44 Roedd amryw o nyrsys ysgol yn mynegi pryder nad oeddent wedi cael hyfforddiant digonol i roi cymorth addas i ddisgyblion â phroblemau iechyd meddwl. Mewn un bwrdd iechyd, mae'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn cydweithio â CAMHS i uwchsgilio nyrsys ysgol Band 6 i allu cefnogi disgyblion yn fwy effeithiol: *“Rydym yn ceisio atgyfnerthu cysylltiadau gyda CAHMS i gyrraedd*

⁴⁹ Tudalen 10, Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion

safonau gofynnol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.” (Nyrs ysgol arweiniol)

Roedd hyfforddiant penodol mewn iechyd meddwl yn cael ei nodi fel rhywbeth hanfodol gan nyrsys ysgol yn y mwyafrif o ardaloedd.

- 5.45 Roedd lleiafrif o nyrsys ysgol yn cyfeirio at raglen peilot mewngymorth ysgolion CAMHS⁵⁰ fel un a oedd wedi helpu gwella ansawdd a swm y cymorth iechyd meddwl a gynigir, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mewn un ardal, mae nyrsys ysgol wedi dilyn yr hyfforddiant a gyflwynir i staff addysgu drwy’r rhaglen, a’r farn oedd bod hyn yn fanteisiol.
- 5.46 Teimlai nyrsys ysgol mai unig ganlyniad sesiwn galw heibio gyda disgybl mewn llawer o achosion fyddai atgyfeirio neu ddangos y ffordd i’r disgybl at wasanaethau eraill, er enghraifft timau iechyd meddwl cymunedol neu’r cwnselydd ysgol. Mewn lleiafrif o achosion, maent yn gweld pobl ifanc yn rheolaidd mewn sesiynau galw heibio, er enghraifft disgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn bodloni meini prawf CAMHS.
- 5.47 Caiff y sesiynau galw heibio eu gwerthfawrogi’n fawr gan ysgolion, yn enwedig wrth i broblemau iechyd meddwl ddod yn fwyfwy cyffredin a’r canfyddiad o ddiffyg capasiti o fewn CAMHS i ddiwallu’r galw cynyddol hwn. Mae sesiynau galw heibio yn bwysig hefyd o safbwynt peri bod y nyrs ysgol yn weladwy yn yr ysgol – i ddisgyblion ac athrawon. Teimlai rhai ysgolion ei bod yn werthfawr y gall disgyblion gael at y nyrs ysgol ar adegau eraill yn ogystal â’r sesiynau galw heibio rheolaidd: *“Mae myfyrwyr yn gwybod y gallan nhw gysylltu â hi’n uniongyrchol. Dydyn nhw ddim yn dibynnu ar athrawon gan fod rhif y nyrs ysgol yn amlwg ar ei swyddfa.”* (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)
- 5.48 Nid yw pob bwrdd iechyd yn darparu sesiynau galw heibio fel rhan o’u gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, ac roedd ymarferwyr ysgol yn yr ardaloedd hyn yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch diffyg cyswllt rheolaidd, wyneb yn wyneb, â’r nyrs ysgol:

⁵⁰ Dechreuodd y rhaglen beilot ddwy flynedd ym mis Medi 2018 ac mae ar waith mewn chwe awdurdod lleol yng Nghymru. Nod y rhaglen yw cryfhau cymorth gan gwasanaethau arbenigol iechyd meddwl i ysgolion trwy alluogi ymarferwyr penodol CAMHS i ddarparu amrywiol fathau o gymorth i ysgolion gan gynnwys cymorth a chynghor wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

“Dw i’n credu bod nyrsys ysgol yn gwneud clinigau mewn safleoedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol – ond byddai’n rhaid iddyn nhw [y person ifanc] gael eu hatgyfeirio atyn nhw gan y meddyg teulu ... nid yw’n wasanaeth galw heibio.” (Prifathro cynorthwyol, ysgol uwchradd)

- 5.49 Teimlai amryw o ymarferwyr ysgolion cynradd y byddai sesiynau galw heibio yn werthfawr i’w disgyblion. Mewn un ysgol gynradd a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn, canfuwyd bod y nyrs ysgol yn darparu sesiynau galw heibio o bryd i’w gilydd, er eu bod ar gyfer rhieni ac nid disgyblion: *“Mae gennym foreau coffi unwaith y tymor ac mae hi wedi dod yno o bryd i’w gilydd i ateb cwestiynau rhieni.”* (Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)
- 5.50 Mae un bwrdd iechyd hefyd yn y broses o ddatblygu gwasanaeth ffôn seiliedig ar ap er mwyn i bobl ifanc gael at eu gwasanaeth nyrsio ysgol:
- “Mae er mwyn ei gwneud hi’n haws i bobl ifanc – yn enwedig bechgyn – i gael sgwrs gyfrinachol gyda’r nyrs ysgol ... ni yw’r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i roi cynnig ar hyn.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.51 Mae problemau wedi bod, fodd bynnag. Er y bwriedir iddo fod yn wasanaeth cyfrinachol, mae achosion (er enghraifft lle mae’r galwr mewn risg o gyflawni hunanladdiad ac nad yw’r nyrs ysgol ar gael i siarad y foment honno) lle gellid gofyn i’r galwr roi eu rhif ffôn, sydd felly’n perygl eu cyfrinachedd. O ganlyniad, nid yw’r bwrdd iechyd wedi gallu cael cymeradwyaeth gan eu rheolwyr TG i’w redeg fel gwasanaeth 24-awr ac nid ydynt yn gallu ei gynnal ond yn ystod oriau ysgol, pryd y gellir ei staffio.
- 5.52 Mewn rhai ysgolion cynradd, mae nyrsys ysgol yn trafod gyda rhieni i helpu plant â phroblemau penodol sydd wedi cael eu hadnabod naill ai gan yr ysgol neu’r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion. Mae’r rhain yn cynnwys:
- Plant sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai dros eu pwysau trwy’r Rhaglen Mesur Plant: *“Hefyd, lle’r ydym yn bryderus am bwysau plant, bydd hi’n cyfarfod gyda theuluoedd ac yn gweithio gyda’r meddygon [meddygon teulu].”* [Prifathro ysgol gynradd]

- Helpu ymwneud gorfodol gan rieni wrth ddatblygu cynlluniau gofal iechyd:
“Mae gennym blentyn y mae ei phresenoldeb yn wael iawn, ac mae’r rhiant yn dweud mai asthma sydd arni – felly rydym wedi dweud bod angen iddi fynd i gyfarfod gorfodol â’r nyrs ysgol i ddatblygu cynllun asthma.”
(Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)
- Ymchwilio i achosion lle amheuir syndrome Munchausen by proxy: *“Roedd gennym blentyn a ymddangosai fel pe bai ganddo broblemau baeddu – y rhiant yn cael gosod ystafell wlyb [wedi ei chyllido trwy’r Lwfans Byw i’r Anabl] ac roedd y plentyn yn colli llawer o ysgol, felly fe wnaeth y nyrs ysgol gysylltu â’r ymgynghorydd i wirio bod hyn yn gyfreithlon ... fydden ni ddim wedi gallu cael yr wybodaeth honno.”* (Prifathro dros dro, ysgol gynradd)
- Cynghori rhieni ar ddognau addas o foddion rhyddhaol i blant â phroblemau toiled.

5.53 Mae enghreifftiau eraill o gymorth estynedig a gyflwynir gan nyrsys ysgol ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwasanaethau Enuresis mewn clinig, yn cael ei gyflwyno’n arferol ar sail penderfyniad y nyrs(ys) ysgol sy’n eu gweithredu.
- Diweddariadau epi-pen blynyddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda disgyblion ag epilepsi – gallai hyn fod mewn ymateb i alw penodol gan yr ysgol neu ar ôl trosglwyddiad gan ymwelydd iechyd⁵¹.
- Helpu datblygu cynllun gofal i blant sydd â phroblem iechyd a adnabuwyd (er enghraifft, epilepsi).
- Asesiadau blynyddol iechyd a llesiant plant sy’n derbyn gofal ac adolygiadau chwe-misol plant sy’n derbyn gofal.
- Gweithredu’r rhaglen Cerdyn-C (cerdyn condom) sy’n darparu condomau am ddim a gwybodaeth am iechyd rhywiol i bobl ifanc, ar benderfyniad y bwrdd iechyd a gyda chaniatâd yr ysgol.

⁵¹ Sef, lle mae ymwelydd iechyd yn hysbysu’r nyrs ysgol bod gan blentyn sy’n dechrau yn yr ysgol epilpsi.

Nyrsio mewn ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion annibynnol

- 5.54 Mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion o fewn ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn amrywio'n sylweddol ar y rheini a gyflwynir mewn lleoliadau prif ffrwd. Mewn ysgolion arbennig, er gwaethaf cyhoeddi [rhan dau y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion](#), sy'n ymwneud ag ysgolion arbennig, ymddengys fod cryn anghysondeb yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno ac roedd llawer o nyrsys ysgol, gan gynnwys nyrsys ysgol arweiniol, yn galw am fwy o eglurder ynghylch beth ddylent fod yn ei ddarparu mewn ysgolion arbennig.
- 5.55 Caiff y rhaglen imiwneiddio cenedlaethol, y rhaglen mesur plant a sgrinio'r clyw a'r golwg eu gweithredu mewn bron bob lleoliad ysgol arbennig gan y gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion. Er bod rhai nyrsys ysgol yn dweud eu bod yn imiwneiddio mewn unedau cyfeirio disgyblion yn ogystal, mae tystiolaeth i awgrymu, mewn o leiaf un ardal bwrdd iechyd, nad yw'n bolisi i weithredu'r rhagle imiwneiddio o fewn unedau cyfeirio disgyblion. Dywedodd prifathro ysgol arbennig a oedd hyd yn ddiweddar wedi bod yn uned cyfeirio disgyblion nad oedd y rhaglen imiwneiddio ar gael i'w disgyblion:

“Dw i wed bod yn brwydro am iddyn nhw ddod i wneud brechiadau ers inni ddod yn ysgol arbennig – maen nhw [y gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion] yn dweud [y dylai'r disgyblion] fynd at eu meddyg teulu neu ysgol brif ffrwd⁵², er bod y mwyafrif [o ddisgyblion] yn aros gyda ni'n barhaol.” (Prifathro ysgol arbennig)

- 5.56 Mae hybu iechyd yn faes lle mae mwy o anghysondeb ac roedd llawer o nyrsys ysgol yn mynegi pryder am yr agwedd hon o'u rôl:

“Mae diffyg dealltwriaeth o'r hyn y dylen ni fod yn ei wneud ynghylch Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion arbennig.” (Nyrs ysgol arweiniol)

“Dw i'n nerfus ynghylch Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion arbennig gan ei fod yn dal i fod yn rhywbeth newydd.” (Nyrs ysgol)

⁵² Mae atgyfeirio i uned cyfeirio disgyblion am gyfnod dros dro fel arfer, a byddai disgwyl i'r disgybl ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd wedi hynny.

- 5.57 Roedd nyrsys ysgol yn disgrifio cyflwyno sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion arbennig i grwpiau llai o blant ac yn defnyddio iaith symlach nag mewn ysgolion prif ffrwd. Mewn rhai achosion, caiff hyn ei gyflwyno ar y cyd â nyrs benodedig yr ysgol arbennig. Roedd llawer o nyrsys yn galw am fwy o eglurder ynghylch rôl nyrsys ysgol yn gweithredu mewn ysgolion arbennig a nyrsys ysgolion arbennig:

“Mae’n rhaid i ran dau Rhaglen Plant Iach Cymru ddangos yn glir beth mae nyrs ysgol yn ei wneud a beth mae nyrs ysgol arbennig yn ei wneud – dyw’r fframweithiau ddim yn gwneud hynny.” (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.58 Ychydig iawn roedd nyrsys ysgol yn ei siarad am eu rôl mewn ysgolion annibynnol. Caiff y rhaglen imiwneiddio ei gweithredu trwy wasanaethau nyrsio mewn ysgolion, ond fawr ddim arall. Mae’r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion yn datgan bod Safonau Diogelu Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn berthnasol i blant mewn lleoliadau ysgolion preifat; fodd bynnag ni soniodd yr un nyrs am fod â rhan mewn achos diogelu yn ymwneud â phlentyn mewn ysgol annibynnol.

Gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion i blant a phobl ifanc a addysgir gartref

- 5.59 Mae’r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a gynigir i blant a gaiff eu haddysg gartref yn amrywio hyd yn oed yn fwy na rhwng sefydliadau prif ffrwd a sefydliadau eraill. Fel gydag ysgolion annibynnol, mae’r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion yn datgan bod y safonau Imiwneiddio i blant oedran ysgol yng Nghymru a Safonau Diogelu Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn berthnasol i blant a gaiff eu haddysgu gartref. Does dim cyfeiriad pellach at blant a addysgir gartref yn y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion, fodd bynnag. Roedd y rhan fwyaf o’r nyrsys ysgol yn feirniadol o’r gwasanaeth a gynigir i blant a addysgir gartref yn eu hardal: *“Addysg cartref – mae’n fwlch mawr ac yn cael ei grybwyll ym mhob cyfarfod yr awn iddo.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.60 Cael at y plant hyn yw’r her fwyaf. Mewn theori, dylai plant a gaiff eu haddysgu gartref dderbyn yr un gwasanaeth â’r rheini mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd

bynnag, yn ymarferol, nid yw hyn yn bosibl gan nad yw gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion bob amser yn gwybod pwy sy'n cael eu haddysgu gartref ac awgrymwyd bod rhieni'r plant hyn yn aml yn awyddus i gyfyngu ar gysylltiadau gyda gwasanaethau cyhoeddus. Mewn rhai achosion, mae'r nyrs ysgol yn gallu ffurfio perthynas gyda'r teulu – er enghraifft lle bo trosglwyddiad ffurfiol oddi wrth yr ymwelydd iechyd. Mae rhai byrddau iechyd wedi cysylltu ag adrannau addysg a sefydlu protocol rhannu gwybodaeth ar blant a gaiff eu haddysgu gartref. Fodd bynnag, gan nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gwybod pwy sy'n cael eu haddysgu gartref, nid yw hyn yn golygu bod pob plentyn perthnasol yn cael ei gyrraedd.

- 5.61 Lle caiff plant a addysgir gartref eu hadnabod, byddant yn derbyn manylion am y gwasanaethau mae ganddynt hawl iddynt, naill ai trwy eu hymwelydd iechyd neu yn y post. Yn gyffredinol, y gwasanaethau a gynigir i'r plant hyn yw'r rhaglen imiwneiddio, y rhaglen mesur plant a'r rhaglen sgrinio. Gall y nyrs ysgol gynnig gweithredu'r rhaglenni hyn yn y cartref neu bydd yn cyfeirio teuluoedd at eu practis meddyg teulu am imiwneiddio neu sgrinio'r clyw neu'r golwg.
- 5.62 Dywedodd rhai nyrsys ysgol eu bod yn cynnig mynd i gartrefi pobl i gyflwyno hybu iechyd (yn enwedig ar ddod i aeddfedrwydd ac addysg rhyw), ond nad oes llawer yn manteisio ar hyn. Dywedodd lleiafrif bach o nyrsys ysgol na fyddent yn cynnig ymweliadau cartref fel mater o egwyddor, gan nad oedd hyn yn cael ei gynnig i blant mewn addysg prif ffrwd ac y byddai felly yn anghydraddoldeb.
- 5.63 Yn y mwyafrif o achosion roedd diffyg adnoddau gan y nyrs ysgol, a hynny ar ben tueddiad at anfodlonrwydd gan y teuluoedd, yn golygu mai gwasanaeth nyrsio ysgol cyfyngedig iawn mae plant a addysgir gartref yn ei dderbyn: *“Dydyn nhw'n cael dim o'r Addysg Bersonol a Chymdeithasol na mynediad at y sesiynau galw heibio.”* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.64 Mewn un ardal, roedd y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn cynnwys plant a addysgir gartref trwy grŵp unswydd: *“Rydym yn datblygu cysylltiadau gyda boreau coffi y grŵp addysg cartref dewisol a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol ... rydym yn mynd ac yn siarad am imiwneiddio.”* (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.65 Er hynny, y consensws cyffredinol yw bod lle sylweddol i wella yn y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a ddarperir i blant a addysgir gartref. Yn ogystal â'r mater o sicrhau cydraddoldeb gwasanaeth, roedd amryw o nyrsys ysgol yn mynegi pryder am y perygl ei bod yn fwy anodd adnabod problemau'n ymwneud â diogelu gyda phlant a gaiff eu haddysgu gartref: *"Y plant sy'n symud o gwmpas llawer ac nad ydyn nhw yn yr ysgol yw'r rheini sy'n llithro drwy'r bwlch."* (Nyrs ysgol)

Cysondeb â'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion

- 5.66 Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid ar y graddau roedd gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn gyson â'r Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion yn amrywio o *"ddim o gwbl"* (Nyrs ysgol arweiniol) i *"Eithaf da – rydym eisoes wedi dilyn y fframwaith gwreiddiol yn bur dda."* (Nyrs ysgol arweiniol)
- 5.67 Roedd y dehongliad o beth yw gwasanaeth 'drwy gydol y flwyddyn' yn ei olygu yn amrywio; yn y mwyafrif o fyrddau iechyd caiff rhai ymarferwyr (Bandiau 6 a 7 yn aml) eu cyflogi drwy gydol y flwyddyn, ond nid oes fawr o gyfle i wneud dim byd y tu hwnt i ddiogelu:

"Caiff gwyliau eu llethu'n llwyr gan gynadleddau amddiffyn plant, grwpiau craidd, cyfarfodydd masnachu mewn plant, cyfarfodydd county lines ac yn y blaen – felly allwn ni ddim gwneud dim byd arall, felly dydyn ni ddim yn cynnig gwasanaeth nyrsio [wyneb yn wyneb â phlant] yn ystod gwyliau ysgol." (Nyrs ysgol arweiniol)

"Nid yw gwasanaeth 52-wythnos yn digwydd mewn gwirionedd ... does dim gwasanaeth mynediad uniongyrchol [yn ystod gwyliau ysgol] ... gwaith papur a diogelu yw'r gwaith sy'n mynd ymlaen. Hyd yn oed os oes clinig [galw heibio] mewn theori – nid yw ysgolion yn gwybod amdanyn nhw." (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.68 Mewn lleiafrif o achosion, mae nyrsys ysgol yn darparu gwasanaethau eraill (estynedig) yn ystod gwyliau ysgol: *"Dw i'n gwybod bod y nyrs ysgol wedi wneud ymweliadau cartref i blentyn yn y gwyliau lle'r oedd pryder ynghylch ASD."* (Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)

- 5.69 Roedd ymarferwyr ysgol yn credu'n arferol bod gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn cael eu cynnig iddynt yn ystod amser tymor yn unig, neu o leiaf fod plant, pobl ifanc a rhieni i raddau helaeth o dan yr argraff nad oedd y gwasanaethau ar gael yn ystod gwyliau ysgol: *"Hoffwn ddweud [fod y gwasanaeth] drwy gydol y flwyddyn, ond dw i ddim yn meddwl y byddai rhieni'n gwybod sut i gael gafael arnyn nhw."* (Prifathro cynorthwyol)
- 5.70 Yr agweddau eraill y dywedwyd bod rhai byrddau iechyd yn methu â chydymffurfio â'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion yw:
- Ymwneud â chynadleddau diogelu: *"Dydyn ni ddim wedi gweithredu'r Fframwaith [Nyrsio mewn Ysgolion] yn llawn eto felly mae'n nyrsys ysgol yn dal i fynd i bob cyfarfod cynhadledd achos."* (Nyrs ysgol arweiniol)
 - Hyrwyddo llesiant emosiynol: *"Mae'n debyg ein bod ar y golau oren ar lesiant emosiynol – rydym yn ymwybodol o broblemau ond heb fod yn sicr os ydym yn gwneud digon yn ei gylch ... mae angen gwneud mwy gyda CAMHS i ymdrin ag anghenion y 'canol coll' nad ydyn nhw'n cyrraedd meini prawf CAMHS, ond sy'n gwneud hunan-niwed ofnadwy."* (Nyrs ysgol arweiniol)
 - Datblygu pasbort imiwneiddio, a fyddai'n galluogi plant a phobl ifanc i adael ysgol gyda chofnod ffurfiol o'r holl imiwneiddiadau maen nhw wedi eu cael erioed: *"Dydyn ni ddim yn gwneud hynny eto; mae'n fater o gael yr adnoddau i rywun wneud hynny – gallai Iechyd Plant wneud hynny."* (Nyrs ysgol arweiniol)

Cyffredinolaeth gynyddol

- 5.71 Cymysg oedd y farn ar y graddau mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion wedi eu seilio ar y cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol. Teimlai'r mwyafrif o nyrsys ysgol arweiniol – llawer ohonynt yn gyfarwydd â gwasanaethau ymwelwyr iechyd a rhan un Rhaglen Plant Iach Cymru – fod nyrsio mewn ysgolion yn wasanaeth mwy cyffredinol ac ymatebol nag un sy'n seiliedig ar gyffredinolaeth gynyddol: *"Mae'r rhan fwyaf o bell ffordd o'r hyn ydym yn ei wneud yn gyffredinol – nid yw*

gwasanaethau [cyffredinol, dwys, estynedig] cynyddol ond yn ymwneud â diogelu mewn gwirionedd.” [Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.72 Roedd y niferoedd uchel sy'n derbyn imiwneiddio yn cael ei grybwyll yn helaeth fel enghraifft o lle mae'r gwasanaeth yn cyflawni'n effeithiol i (bron) bob plentyn, waeth beth fo'u hangen. Mewn ardaloedd lle mae clinigau galw heibio rheolaidd yn digwydd, mae'r gwasanaeth yn darparu continiwm o gymorth i'r rheini sydd ag anghenion mwy – i raddau. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae hon yn agwedd o anghysondeb sylweddol yn y gwasanaeth o fewn byrddau iechyd, a rhyngddynt a'i gilydd, a'r unig bobl ifanc y mae'n eu cefnogi yw'r rheini a gaiff eu hatgyfeirio neu sy'n hunan-atgyfeirio i'r sesiynau.
- 5.73 Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn ffordd arall lle mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, gellid dadlau, yn helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, drwy ei fod yn ffordd o ddarganfod problemau pwysau, a all arwain at ymyrraeth wedi ei thargedu at deuluoedd a/neu atgyfeirio at feddyg teulu neu ddietegwyr. Er hynny, y consensws cyffredinol ymysg nyrsys ysgol oedd nad ydynt yn cael fawr o effaith yn y cyswllt hwn, a bod mwy o werth mewn canolbwyntio ar atal gorbwysau trwy sesiynau bwyta iach i ddosbarthiadau cyfain.
- 5.74 Awgrymwyd hefyd, yn wyneb yr angen i dynnu sylw at unigolion mewn angen a pheri annifyrrwch iddynt, fod ymyrraeth wedi'i thargedu yn cael ei chuddo fel gwasanaeth cyffredinol, sef lle bo ysgol yn darganfod problem gydag un plentyn, y gallai'r nyrs ysgol gyflwyno sesiwn i'r dosbarth gyfan ar, er enghraifft, hylendid personol neu lau pen:

“Efallai nad oes ond un neu ddau blentyn sy'n ymddangos fel pe na baen nhw'n ymolchi'n iawn, ond fe fydden ni'n gwneud sesiwn i'r dosbarth cyfan er mwyn osgoi gwneud iddyn nhw deimlo'n annifyr.” (Nyrs ysgol)

- 5.75 Mae rôl ymwelwyr iechyd yn amlwg yn hanfodol o safbwynt adnabod y plant hynny sydd angen graddau ychwanegol o gymorth o oedran ifanc iawn ac yna trosglwyddo'r wybodaeth hon i nyrsys ysgol wrth iddynt bontio i'r ysgol:

“Caiff anghydraddoldebau iechyd eu hadnabod gan ymwelwyr iechyd pan gaiff y plant eu geni, ac felly mae'r trosglwyddo o'r ymwelwyr iechyd i'r nyrsys ysgol

yn allweddol er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw anafanteision y rheini sydd ag anghydraddoldebau.” (Nyrs ysgol)

- 5.76 Mae'r graddau y gall gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion barhau i ddarparu lefel estynedig o gymorth i'r rhai sydd ei angen, fodd bynnag, yn cael ei danseilio gan ddiffyg capasiti:

“Pe na bai capasiti yn broblem, fe allen ni ganolbwyntio o ddifrif ar iechyd pobl ifanc, cael clinig iechyd person ifanc. Mae angen inni dynnu'n ôl o waith diogelu a buddsoddi yn rhywun – efallai Band 4 – a allai weithio'n fwy dwys gyda theuluoedd sydd angen hynny.” (Nyrs ysgol)

- 5.77 Yn ogystal, tra bod gan ymwelwyr iechyd berthynas broffesiynol gyda theuluoedd unigol, mae gan nyrsys ysgol yn aml lwyth achosion o rhwng 1,500 a 2,500 sy'n seiliedig ar boblogaeth ysgol, sy'n golygu ei bod yn her fawr adnabod y rheini sydd angen cymorth ychwanegol ar ôl iddynt bontio allan o wasanaeth ymwelwyr iechyd:

“Mae'n fwy o wasanaeth ymatebol – ei chymryd hi fel y daw. Mae angen inni fod yn gwneud mwy o dargedu. Mae angen inni fod yn well am ddeall iechyd ein poblogaeth – er mwyn targedu adnoddau. Er enghraifft, mae angen inni ddeall faint [o blant] sydd ag asthma neu sy'n ordew.” (Nyrs ysgol arweiniol)

- 5.78 Mae bodolaeth y rhaglen Dechrau'n Deg yn allweddol wrth alluogi cyffredinolaeth gynyddol yn y gwasanaeth sydd ar gael i blant bach, tra dylai dyfodiad dyfais mesur aciwtedd i ymwelwyr iechyd helpu mwy o dargedu adnoddau ar deuluoedd sydd ag anghenion mwy. Mae absenoldeb unrhyw fath o fuddsoddiad uwch mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion mewn ardaloedd o anghenion mwy yn cyfyngu ar pa mor bell y gall y gwasanaeth gydgyfeirio â chysyniad cyffredinolaeth gynyddol.

- 5.79 Roedd llawer yn amau sail resymegol gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn cael adnoddau wedi eu targedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar sail daearyddiaeth, ond y gwasanaethau hynny'n dod i ben pan fo plant yn cyrraedd pump oed. Roedd amryw o nyrsys ysgol yn galw'n benodol am 'nyrsys ysgol Dechrau'n Deg', neu fuddsoddiad mewn mwy o nyrsys ysgol mewn ardaloedd o

angen mawr, a fyddai'n darparu mwy o gapasiti ar gyfer cyflwyno gwasanaethau estynedig – er enghraifft clinigau galw heibio:

“Mae ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn wych, ond nid yw'r problemau'n diflannu'n sydyn pan fo'r plant yn troi'n bump oed ... dylai fod nyrsys ysgol Dechrau'n Deg.” (Nyrs ysgol)

- 5.80 Roedd yr ymarferwyr ysgol bron i gyd yn anghyfarwydd â'r termau 'cyffredinolaeth gynyddol'. Teimlai rhai, fodd bynnag, fod gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle mae'r nyrs ysgol ar gael am gyngor a chymorth:
- “Rydym fymryn y tu allan i ardal Cymunedau'n Gyntaf⁵³ – mae gennym 19 y cant ar brydau ysgol am ddim a llawer o dai rhent a thlodion sy'n gweithio. Does ar rieni ddim eisiau swmian ar eu meddyg teulu, ond os oes ganddyn nhw wyneb cyfeillgar fe allan nhw ofyn am help – mae ein nyrs ysgol mor bwysig. Felly mae'r [gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion] yn helpu lleihau'r bwlch gan fod angen meddygol yn ymddangos fel pe bai'n mynd law yn llaw â thlodi.”* (Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)

Strwythurau staffio a ffyrdd gweithredol o weithio

- 5.81 Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn symud tuag at gymysgedd sgiliau yn y ffordd maen nhw'n gweithredu'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion. Mae'r graddau y mae hyn yn digwydd yn amrywio'n helaeth, fodd bynnag.
- 5.82 Mewn un bwrdd iechyd, mae nyrsys Band 3 yn gweithredu'r Rhaglen Mesur Plant a'r sgrinio golwg a'r clyw, yn cyflwyno sesiynau iechyd cyhoeddus, fel golchi dwylo, a rhoi cymorth gweinyddol a bugeiliol gydag imiwneiddio. Mae gan nyrsys Band 5 lwyth achosion ysgol gynradd a ddirprwywyd, byddant yn gweithredu rhywfaint o'r gwaith diogelu symlaf⁵⁴ ac yn rheoli'r rhaglen imiwneiddio. Mae

⁵³ Rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac iddi'r nod o leihau tlodi oedd Cymunedau'n Gyntaf. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar gymunedau ac yn cefnogi'r bobl o dan fwyaf o anfantais yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gyda'r nod o gyfrannu at leihau tlodi parhaus. Cafodd ei lansio yn 2001 a'i dirwyn i ben yn 2018.

⁵⁴ Er enghraifft, mynd i gyfarfodydd grwpiau craidd.

nyrsys Band 6 yn gyfrifol am gydgyssylltu clwstwr o lwythi achosion⁵⁵, gan gymryd cyfrifoldeb am achosion mwy cymhleth o amddiffyn plant a gwneud sesiynau galw heibio mewn ysgolion uwchradd. Caiff is-ranbarthau o fewn y bwrdd iechyd eu goruchwyllo wedyn gan arweinydd tîm Band 7 sydd â rôl reolaethol i raddau helaeth ond sydd hefyd â llwyth bach o achosion er mwyn cadw rôl ymarferol yn y gwasanaeth. Mae hefyd dîm imiwneiddio bach o nyrsys Band 5 i gefnogi'r rhaglen imiwneiddio.

5.83 Er bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn dilyn ffordd debyg o weithio i ryw raddau, nid yw hyn yn wir ym mhob ardal: *“Mae’n rhaid inni fabwysiadu cymysgedd sgiliau yn well, felly rydym yn gweithio’n ddarbodus. Mae gen i nyrsys Band 6 o hyd sy’n gyndyn o roi’r gorau i sgrinio.”* (Arweinydd nyrsys ysgol). Roedd rhai nyrsys ysgol arweiniol yn cyfeirio at bobl yn amddiffynnol o’u statws proffesiynol, lle’r roedd rhai nyrsys SCPHN yn anfodlon dirprwyo agweddau o’u rôl i gydweithwyr iau neu is.

5.84 Mae rhai byrddau iechyd wedi symud oddi wrth fod â thîm imiwneiddio unswydd i’r gwaith:

“Roedd nyrsys Band 5 yn cael eu cyflogi’n wreiddiol ar gyfer imiwneiddio yn unig, ond roedd gennym broblem cadw staff gan ei bod yn swydd ddigon diflas, felly maent nawr yn gwneud mwy a mwy o waith lefel isel hybu iechyd a sgrinio.” (Nyrs ysgol arweiniol)

5.85 Mewn rhai ardaloedd, caiff sgrinio’r golwg a’r clyw ei wneud gan nyrsys meithrin o dan y gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Mae hyn wedi’i etifeddu o bolisi blaenorol lle’r oedd sgrinio yn gyfrifoldeb y gwasanaeth ymwelwyr iechyd, ond credir bod y sefyllfa bresennol yn peri amwysedd yn y rhaniad cyfrifoldeb rhwng ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol:

“Mae nyrsys meithrin yn gwneud y sgrinio mewn un ardal ar ran ymwelwyr iechyd, ond maen nhw’n adrodd yn ôl i’r nyrs ysgol, felly gall achosi problemau o safwynt pwy sy’n mynd ymlaen i ymdrin ag unrhyw ddiffygion ar y golwg neu’r clyw.” (Nyrs ysgol arweiniol)

⁵⁵ Sef, ysgol uwchradd gyda’r ysgolion cynradd sy’n ei bwydo.

- 5.86 Awgrymwyd bod Fframwaith 2017 ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion wedi helpu safoni arferion, a oedd yn cynnwys defnyddio cymysgedd sgiliau, er ei bod yn amlwg fod angen gwneud cynnydd pellach er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn gweithredu'n unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Materion trawsffiniol

- 5.87 I Fyrddau Iechyd Prifysgolion Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysg Powys, gall fod heriau sy'n gysylltiedig â bod ar y ffin â Lloegr.
- 5.88 Yn achos plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond a gaiff eu haddysgu yn Lloegr, gall fod yn anodd i'r gwasanaeth nyrsys ysgol sicrhau a ydynt wedi cael imiwneiddiadau ai peidio:

“Rydym yn dibynnu ar ffurflenni cydsynio gan ddisgyblion neu rieni i ddarganfod a yw disgyblion sy'n byw yn Lloegr wedi cael eu brechiadau. (Nyrs ysgol)

“Gall imiwneiddio fod yn gymhleth – os yw plentyn o [bwrdd iechyd yng Nghymru] yn mynd i ysgol yn Lloegr, nid yw'r awdurdodau iechyd yn Lloegr yn dda iawn bob amser am ddweud wrthym os ydynt wedi eu cael.” (Nyrs ysgol).

- 5.89 Yn yr un modd, gall fod anawsterau wrth gael gwybodaeth ynghylch gwasanaethau gofal eilaidd y mae plentyn neu berson ifanc sy'n byw yng Nghymru yn eu derbyn yn Lloegr:

“Dydyn ni ddim yn cael gwybodaeth iechyd bob amser os yw plentyn yn mynd i ysbyty gwahanol [sef yn Lloegr] ... mae'n rhaid i'r wybodaeth wedyn ddod trwy'r meddyg teulu, neu wasanaethau plant. Mae'n rhaid cadw hyn mewn cof drwy'r amser.” (Nyrs ysgol)

- 5.90 Lle bo materion amddiffyn plant yn ymwneud â disgyblion o Gymru sy'n mynd i ysgol yn Lloegr, gall fod yn angenrheidiol i nyrsys ysgol fynd i gyfarfodydd dros y ffin.

- 5.91 Nid mater sy'n codi rhwng Cymru a Lloegr yn unig yw trosglwyddo gwybodaeth yn drawsffiniol, ond rhwng byrddau iechyd a'i gilydd a hyd yn oed o fewn byrddau iechyd. Roedd nyrsys ysgol yn disgrifio'r pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd fel enghraifft o lle nad yw cofnodion o gysylltiad â'r gwasanaeth nyrsys ysgol yn cael eu trosglwyddo: *"Nid yw technoleg gwybodaeth iechyd plant yn gydnaws rhwng gwahanol ardaloedd a'i gilydd ... gorfod dilyn atgyfeiriadau ar bapur ... mae hyn yn iawn ond gallai fod yn well."* (Nyrs ysgol)
- 5.92 Mae heriau tebyg yn codi pan fo plant a phobl ifanc yn symud o ardal un bwrdd iechyd i'r llall ac mae pryder fod rhai plant – yn enwedig rhai ag anghenion mwy – yn llithro drwy'r rhwyd os nad yw manylion angen a adnabuwyd yn cael eu rhannu.

Dogfennu Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion

- 5.93 Nid oes fawr o gysondeb yn y ffordd y caiff arferion nyrsio mewn ysgolion eu dogfennu yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'n amlwg fod llawer o'r gwaith atal hynod werthfawr mae nyrsys ysgol yn ei wneud heb fod yn cael ei gofnodi'n ffurfiol na'i fonitro: *"Does dim cofnod o'r cymorth anffurfiol mae nyrsys ysgol yn ei roi ... y cyngor a'r canllawiau ad hoc i ysgolion."* (Nyrs ysgol)
- 5.94 Caiff cofnodion imiwneiddio eu cofnodi ar Iechyd Plant. Er hynny, does dim tystiolaeth o'r gwaith a gyflawnwyd wrth gael cysdsyniad.
- 5.95 Yn y mwyafrif o ardaloedd, mae gwaith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc unigol – er enghraifft sgysiaau a chanlyniadau o sesiynau galw heibio, cymorth a roddir i ysgolion wrth baratoi cynllun gofal iechyd neu gyngor a roddir i rieni ar wlychu gwely – yn cael ei gofnodi ar bapur. Mewn un bwrdd iechyd cofnodir y math hwn o wybodaeth ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ac mae hyn wedi galluogi rhannu data rhwng gwahanol weithwyr iechyd proffesiynol.
- 5.96 Efallai na chaiff gwaith hybu iechyd (er enghraifft sgysiaau ar ddod i aeddfedrwydd ac iechyd rhywiol) ei gofnodi ond ar galendrau Outlook nyrsys ysgol unigol; gallai rhai (ond nid pawb) nodi'r nifer o ddisgyblion a ddaeth i'r

sesiwn (ar ôl y digwyddiad), ond does dim tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn cael ei fonitro wedyn gan reolwr.

- 5.97 Awgrymwyd y byddai system adrodd ffurfiol yn rhoi eglurder ynghylch beth y dylai gwasanaethau nyrsys mewn ysgolion eu cynnwys, ac y byddai hefyd yn codi amlygrwydd y gwasanaeth a'r buddsoddiad ynddo:

“Mae arnom angen system adrodd i Lywodraeth Cymru i ddal byrddau iechyd i gyfrif ac i wneud iddynt sylweddoli'r angen i fuddsoddi mewn nyrsys ysgol – nid yw'n ymddangos fod unrhyw atebolrwydd ar hyn o bryd.” (Nyrs ysgol arweiniol)

Rhannu data rhwng gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion ac addysg

- 5.98 Mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion ac ymarferwyr addysg yn rhannu gwybodaeth lle bo'r angen, ac mae'n tueddu i fod yn anffurfiol ac ar lafar.
- 5.99 O fewn y sector cynradd, mae'n ofynnol i nyrsys ysgol gael caniatâd gan y rhieni i rannu unrhyw fanylion o iechyd disgyblion gyda'r ysgol. Lle bo nyrs ysgol wedi adnabod problem eu hunain (sef, nad yw wedi dod trwy atgyfeiriad gan yr ysgol), gall y nyrs gysylltu â'r rhieni:

“Pe bai gen i bryderon am blentyn, er enghraifft, pe baent yn fudr neu fod ganddynt lau pen neu ymddygiad rhyfedd, mae'n debyg y byddwn yn ffonio'r rhiant ac wedyn yn gofyn am eu caniatâd i siarad gyda'r athro.” (Nyrs ysgol)

- 5.100 Ar lefel uwchradd mae'n fwy cymhleth gan y gallai rhai o'r materion a ddatgelir i nyrs ysgol fod yn anhysbys i'r rhieni. Ni fyddai manylion sesiynau un-i-un y gallai nyrs ysgol eu cael gyda disgybl fyth yn cael eu rhannu gyda'r ysgol: *“Mae nodiadau o'n sgwrs gyda'r myfyrwyr yn gyfrinachol ac ni ellir eu dangos i ysgolion.”* (Nyrs ysgol). Dim ond mewn achosion lle credid bod y disgybl mewn risg o niwed y gallai'r wybodaeth gael ei rhannu gyda gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau addas eraill.

- 5.101 Ymddengys fod ysgolion yn fwy bodlon i rannu gwybodaeth gyda nyrsys ysgol. Pan gaiff disgybl ei atgyfeirio at y nyrs ysgol, gall staff addysgu ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol am y disgybl neu eu teulu:

“Mae hi [yr ymwelydd iechyd] yn dod i weld y prifathro fel arfer os oes atgyfeiriad, ac mae'r prifathro yn agored iawn am yr hyn mae hi'n ei wybod am y teulu – felly mae'r cyfan ar lafar.” (Cydgysylltydd ADY, ysgol gynradd)

- 5.102 Gall ysgolion rannu cofnodion presenoldeb gyda'r nyrs ysgol hefyd, a all groesgyfeirio'r hyn wedyn gyda'r wybodaeth ar Iechyd Plant i gadarnhau a oedd rheswm meddygol pam nad oedd disgybl yn yr ysgol. Er na fyddai manylion unrhyw apwyntiad ysbyty neu feddyg teulu yn cael eu rhannu gyda'r ysgol, byddai'r nyrs ysgol yn gallu cadarnhau i'r ysgol a oedd apwyntiad wedi digwydd neu beidio.
- 5.103 Yn yr un modd, os oes gan ysgol bryderon ynghylch a yw rhiant wedi dilyn y gofynion wedi damwain (llosgiadau, cwympiadau etc.) neu ynghylch broblem iechyd barhaus (er enghraifft cur pen), bydd yr ysgol yn gofyn i'r nyrs ysgol wirio a yw hyn wedi digwydd.

Trosglwyddo o wasanaethau ymwelwyr iechyd at nyrsys ysgol

- 5.104 Ym mhob ardal bwrdd iechyd, nid yw trosglwyddiad ffurfiol o blant o ymwelwyr iechyd at nyrsys ysgol yn digwydd ond gyda'r rheini sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd angen gwasanaethau estynedig neu ddwys gan yr ymwelydd iechyd. Byddai hyn yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb neu alwad ffôn i'r ymwelydd iechyd i roi rhywfaint o gefndir i'r plentyn a'i deulu a manylion unrhyw wasanaethau y gall fod wedi eu derbyn. Yn y cyfarfodydd hyn caiff nodiadau achosion eu cyfnewid, caiff taflen drosglwyddo ei chwblhau, a chaiff nodiadau Iechyd Plant eu ffeilio neu eu cadw fel bo'r angen. Mewn ardaloedd lle mae nyrsys ysgol yn rhannu lle gwaith gydag ymwelwyr iechyd, gall y trosglwyddo fod yn symlach, gan y gall nyrsys ysgol fod eisoes, yn anffurfiol, fod wedi ennill rhywfaint o wybodaeth o'u llwyth achosion newydd a hefyd wedi cael y cyfle i

gael trafodaeth gyson gyda'r ymwelwyr iechyd am unigolion sydd ag anghenion penodol.

- 5.105 Mewn rhai achosion, gall y nyrs ysgol gyfarfod gyda theuluoedd plant ag anghenion uwch yr haf cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol er mwyn adeiladu perthynas a all fod yn ddefnyddiol mewn ymyraethau yn y dyfodol.
- 5.106 I'r mwyafrif o blant, fodd bynnag, mae'n fater syml o drosglwyddo'r nodiadau o'r ymwelydd iechyd at y nyrs ysgol – naill ai mewn fformat papur neu trwy'r WCCIS.
- 5.107 Gall fod anawsterau ymarferol wrth drosglwyddo os yw'r ymwelydd iechyd yn ansicr pa ysgol y bydd y plentyn yn mynd iddi – ac felly'r nyrs ysgol a fydd yn gyfrifol amdano ef neu hi.
- 5.108 Yn achlysurol, gall plant sydd ag anghenion uwch lithro drwy'r rhwyd gan y gallai fod nad ydynt ond wedi cael y mymryn lleiaf o gysylltiad ag ymwelwyr iechyd ac felly nid yw eu hanghenion wedi cael eu darganfod.
- 5.109 Er nad yw'n adlewyrchiad negyddol ar wasanaethau nyrsio mewn ysgolion, mae'n amlwg fod rhai ysgolion wedi canfod y berthynas sydd ganddynt gyda'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd o ran plant o dan bump oed fel un eithaf gwael:

“I blant o dan bump mae problem gydag ymwelwyr iechyd gan mai gwan yw'r cysylltiadau sydd gan yr ysgol â nhw. Dydyn ni ddim yn eu hadnabod [yr ymwelwyr iechyd], mae rhai na allwn ni eu cyrraedd, mae rhai heb ddim diddordeb mewn cyfathrebu gyda'r ysgol, mae'n rhaid inni ddefnyddio'r nyrs ysgol fel cyfrwng rhyngom ni. Unwaith mae'r trosglwyddo [o'r ymwelwyr iechyd at nyrsys ysgol] yn digwydd, mae'n rhyddhad enfawr.” (Prifathro ysgol gynradd)

Gweithio mewn partneriaeth ac atgyfeiriadau

- 5.110 Mae nyrsys ysgol yn gweithio gydag amrywiaeth helaeth o broffesiynau a gwasanaethau eraill. Mae llawer o'r rhyngweithio sy'n digwydd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, gall pediatregwyr cymunedol sy'n edrych ar ôl plentyn sydd â chyflwr iechyd cronig ofyn i'r nyrs ysgol am bwysau diweddar. Gall

Gwasanaethau Cymdeithasol ofyn am hanes imiwneiddio neu unrhyw faterion neu bryderon a nodwyd gan y nyrs ysgol. Gall nyrsys ysgol atgyfeirio plant a phobl ifanc at amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys dietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, tîm niwro-ddatblygiadol, Gweithredu dros Blant, Tîm o Amgylch y Teulu, cydgysylltwyr Ysgolion Iach a gwasanaethau ymataliaeth. Mae gan nyrsys ysgol fynediad hefyd at y gwasanaeth diogelu amlasiantaethol, MASH, a gaiff ei ddefnyddio fel pwynt sengl o gyswllt ar gyfer pryderon ynghylch diogelu.

- 5.111 Yn aml, gall nyrsys ysgol wneud atgyfeiriad anffurfiol dros y ffôn i wirio'r llwybr mwyaf addas ar gyfer atgyfeiriad ffurfiol, sy'n golygu bod plant yn gallu cael gwasanaethau'n gyflymach ac osgoi atgyfeiriadau anaddas. Mae'n amlwg fod trafodaethau anffurfiol gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn rhan annatod o rôl nyrsys ysgol o safbwynt rhoi cyd-destun i'r plant a'r bobl ifanc maent yn eu cefnogi.
- 5.112 Mae ambell i enghraifft brin o lle mae nyrsys ysgol wedi gweithio mewn partneriaeth gyda chydgyssylltwyr Ysgolion Iach. Mewn un ardal, er enghraifft, fe wnaeth y cydgysylltydd Ysgolion Iach adnabod llau pen fel problem mewn ysgol benodol, ac felly gweithiodd gyda'r nyrs ysgol a'r tîm iechyd cyhoeddus o fewn y bwrdd iechyd i ddrafftio polisi llau pen. Yn gyffredinol, fodd bynnag yr adborth gan nyrsys ysgol yw y gellid gwneud mwy i integreiddio'r Cynllun Ysgolion Iach a gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion.
- 5.113 Mae CAMHS hefyd yn wasanaeth lle gellid gwella ar y gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu gyda gwasanaethau nyrsys ysgol. Byddai llawer o nyrsys ysgol yn croesawu hyfforddiant gan CAMHS i'w galluogi i gefnogi plant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS, ond sy'n dioddef gyda'u hiechyd meddwl.
- 5.114 Roedd rhai nyrsys ysgol yn mynegi rhwystredigaeth nad yw gwybodaeth am gyflyrau disgyblion pan gânt eu hatgyfeirio at CAMHS yn cael ei rhannu gyda gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, sy'n tanseilio'u gallu i fonitro a chefnogi'r person ifanc.

6. Casgliadau a goblygiadau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru yn yn y dyfodol

Casgliadau

- 6.1 Mae'r ymchwiliad cwmpasu hwn wedi datgelu bod nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Caiff ei weithredu gan weithlu brwd ac ymroddgar ac mae'n gyswilt allweddol rhwng addysg a gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd.
- 6.2 Caiff y rhaglen imiwneiddio cenedlaethol ei gweld fel elfen neilltuol o lwyddiannus o wasanaethau nyrsio mewn ysgolion a mesur iechyd ataliol hanfodol. Fodd bynnag, mae'n broses sy'n cymryd llawer o amser a thrwy fod imiwneiddio yn digwydd o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion⁵⁶ mae'n golygu bod angen iddo gael ei weithredu gan nyrsys â chymwysterau uchel Band 5 a 6.
- 6.3 Bernir hefyd fod gwerth i'r rhaglen sgrinio fel ffordd o adnabod plant sydd â phroblemau gyda'r golwg neu'r clyw cyn y gallant effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad cymdeithasol yn yr ysgol.
- 6.4 Codwyd cwestiynau, fodd bynnag, am werth a moeseg y Rhaglen Mesur Plant oherwydd llawer o ddiffyg adnoddau i wneud gwaith dilynol gyda phlant sydd y tu allan i baramedrau pwysau iach. Mae angen mwy o eglurder ar sail resymegol y Rhaglen Mesur Plant ac os yw hi am gael ei chynnal fel gwasanaeth cyffredinol, ac mae angen iddi gael ei gweithredu ym mhob ardal gan ddefnyddio cymysgedd o sgiliau, er mwyn lleihau galw ar nyrsys Band 5 a 6.
- 6.5 Mae rôl nyrsys ysgol mewn achosion diogelu wedi cael ei amau'n helaeth trwy'r astudiaeth hon, oherwydd y swm mawr o adnoddau y mae'n ei olygu, yn ogystal â'r ffaith mai cyfyngedig yw adnabyddiaeth nyrsys ysgol o'r plant sydd ynghlwm wrth achosion o'r fath, ac mewn llawer achos nid oes ganddynt adnabyddiaeth uniongyrchol o gwbl.

⁵⁶ Mae Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion yn rhoi fframwaith cyfreithiol sy'n galluogi rhai gweithwyr proffesiynol cofrestredig iechyd i gyflenwii a/neu gweini meddyginiaethau penodedig i grŵp a rag-ddiffiniwyd o gleifion, heb iddynt orfod gweld rhagnodydd (megis rhagnodydd sy'n feddyg neu nyrs).

- 6.6 Mae'r defnydd o gymysgedd sgiliau mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn amrywiol iawn, ac er bod pob ardal yn symud tuag at ddirprwyo mwy o dasgau, mae'n dal i fod lle i wella, ac mae angen rhoi eglurder ar lefel genedlaethol ynghylch pa weithgareddau y dylid eu dirprwyo a pha rai na ddylid.
- 6.7 Nid yw'n syndod fod galwad gref am fuddsoddi yng ngweithlu nyrsio ysgolion yn gyffredinol yn wyneb y galwadau cynyddol ar y gwasanaeth o ran diogelu, yr ymrwymiad a bennir ym mholisi allweddol Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn atal, a'r pwyslais cynyddol ar salwch meddwl.
- 6.8 Mae gweithlu sy'n heneiddio ac anawsterau wrth recriwtio a chadw nyrsys yn gyffredinol yn golygu nad mater o gyllid yn unig yw hyn, ond hefyd o hyrwyddo nyrsio mewn ysgolion fel dewis gyrfa. Yn ogystal, mae problemau o ran hyfforddi nyrsys ysgol Band 6, yn y modd y maent yn cyrraedd eu achrediad SCPHN yn y mwyaf o achosion trwy gwrs ymwelwyr iechyd. Er mwyn diwallu'r galw cynyddol am gymorth iechyd meddwl a gofynion y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion ynghylch llesiant meddyliol ac emosiynol, mae angen i nyrsys ysgol gael y sgiliau priodol.
- 6.9 Bernir ei bod yn angenrheidiol targedu adnoddau mewn ardaloedd o amdfadedd, gan mai ardaloedd sydd â'r mwyaf o angen am hybu iechyd ac atal clefydau sydd hefyd yn aml â'r lleiaf o gymorth yn y maes hwn gan fod adnoddau'n mynd at ddiogelu. Mae llawer o nyrsys ysgol wedi galw am dargedu mwy rhagweithiol o adnoddau trwy broffilio llwythi achosion ac adnabod lle mae mwyaf o angen ymyrraeth.
- 6.10 Mae strwythur gweithlu a'r ffordd y caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu cyflwyno yn wahanol iawn i'r hyn yw mewn gwasanaethau ymwelwyr iechyd. Tra bod ymwelwyr iechyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a rhieni yn unigol, mae nyrsys ysgol yn gyffredinol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc gyda'i gilydd. Mae hyn yn anochel yn ei gwneud yn llawer mwy anodd mynd ati'n rhagweithiol i adnabod angen a thargedu adnoddau, ac mae nyrsys ysgol yn gyffredinol yn gorfod ymateb i blant neu ysgolion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

- 6.11 Ledled Cymru, mae nyrsys ysgol wedi adnabod yr angen am fwy o bwyslais ar hybu iechyd mewn meysydd fel bwyta iach, addysg rhyw ac ysmygu, defnydd alcohol a chyffuriau fel ffordd o rwystro problemau yn y meysydd hyn rhag dod i'r amlwg neu gynyddu. Yn ogystal, roedd llawer o nyrsys ysgol yn mynegi rhwystredigaeth nad ydynt yn gallu cyflawni swyddogaeth iechyd cyhoeddus eu rôl ar hyn o bryd.
- 6.12 Mae angen mwy o amlygrwydd i rôl nyrsys ysgol a mwy o eglurder i'w cylch gwaith. Mae camsyniad o hyd fod nyrsys ysgol yn cyflawni swyddogaeth cymorth cyntaf neu glinigol, a chymhlethir hyn gan yr anawsterau maent yn eu hwynebu wrth ddyrannu amser i iechyd cyhoeddus yn eu gwaith.
- 6.13 Mae gallu treulio amser mewn ysgolion yn allweddol, ac roedd pawb o'r ymarferwyr addysgu a oedd yn canmol y gwasanaeth nyrsys ysgol maent yn ei dderbyn mewn cysylltiad wyneb yn wyneb a thros y ffôn â'u nyrs ysgol benodedig. Mae'n amlwg fod sesiynau galw heibio yn rhan allweddol o hyn, a byddent yn cael eu croesawu mewn lleoliadau ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd.
- 6.14 Mae gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru eisoes yn symud tuag at gymysgedd mwy o sgiliau a defnyddio timau aml-lefel. Mae cynnydd pellach yn y maes hwn yn cael ei gyfyngu i ryw raddau gan gontractau presennol y gweithlu, ond wrth i bobl ymddeol neu symud ymlaen, mae cyfle i ddod ag amrywiaeth ehangach o rolau a cheisio'r uchafswm o werth o'r cyllid sydd ar gael yn unol ag egwydddoriion gofal iechyd darbodus.
- 6.15 Er bod y Fframwaith ar gyfer Nyrsio mewn Ysgolion wedi darparu canllawiau buddiol ar beth ddylai gwasanaethau nyrsys ysgol eu cynnwys, mae angen mwy o fanylder ar sut, pryd a lle yn union y dylai'r gwasanaethau hyn gael eu cyflwyno mewn ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg heblaw ysgol⁵⁷, ynghyd ag eglurder ar sut y byddai hyn yn cael ei fonitro.

⁵⁷ Dylai hyn gynnwys gwasanaethau mewn unedau cyfeirio disgyblion a gwasanaeth i blant sy'n cael eu haddysgu gartref.

- 6.16 Mae angen eglurder penodol ynghylch beth ddylai gwasanaeth gydol blwyddyn ei gynnwys, ar sail beth sy'n ddichonadwy i dimau nyrsys ysgol ei ddarparu, a beth fyddai ysgolion, plant a rhieni yn ei werthfawrogi.
- 6.17 Yn olaf, mae angen dangos gwerth gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion. Dywedodd amryw o ymarferwyr ysgol mai cael eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth hon oedd y tro cyntaf y gofynnwyd iddynt am sylw ar y gwasanaeth nyrsys ysgol maent yn ei dderbyn, a'u bod yn teimlo ei bod yn ffordd dda o asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth.
- 6.18 Yn ogystal â dangos meysydd i'w gwella, byddai cael adborth gan ysgolion, plant a phobl ifanc hefyd yn helpu codi amlygrwydd y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion.

Goblygiadau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn y dyfodol

- 6.19 Ar sail y canfyddiadau a amlinellir yma, mae rhai mesurau allweddol y gallai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill eu mabwysiadu i wella gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ailedrych ar y sail resymegol dros y Rhaglen Mesur Plant gyda rhanddeiliaid perthnasol, cenedlaethol ac o fyrddau ieuchyd⁵⁸ ac, os yn addas, cytuno ar fesurau dilynol safonedig i'w cymryd gan dimau nyrsys ysgol mewn perthynas â phlant sydd y tu allan i baramedrau pwysau iach.
 - Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill i ystyried perthnasedd a gwerth cyfraniad nyrsys ysgol mewn achosion diogelu ac, os yn addas, cytuno ar y lefel addas o gyfraniad nyrsys ysgol yn y dyfodol.
 - Diffinio rhaglen isafswm addas o weithgareddau hybu ieuchyd i gael eu cyflawni gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion ym mhob rhan o Gymru.
 - Cynnal archwiliad cynhwysfawr o dimau nyrsio mewn ysgolion ledled Cymru i amlygu graddau bylchau a phrinder mewn staff ac adnoddau⁵⁹.
 - Diffinio strwythur staffio delfrydol sy'n seiliedig ar gymysgedd addas o sgiliau ac egwyddorion gofal ieuchyd darbodus.

⁵⁸ Er enghraifft, Bwrdd Rhaglen Plant Iach Cymru a nyrsys ysgol arweiniol ym mhob bwrdd ieuchyd.

⁵⁹ Gellid gwneud hyn yn fewnol gan bob nyrs ysgol arweiniol, gan ddefnyddio pro forma safonedig a ddatblygwyd yn genedlaethol.

- Cyflwyno system ffurfiol o fonitro a gwerthuso gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol ac ystyrlon.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer sicrhau bod byrddau iechyd yn buddsoddi yn y staff a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r rhaglen imiwneiddio cenedlaethol, y rhaglen sgrinio a'r rhaglen o isafswm diffiniedig o hybu iechyd⁶⁰.
- Ystyried cyfleoedd am raglen genedlaethol sy'n darparu cymorth dwysach trwy wasanaethau nyrsio mewn ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a/neu cinio ysgol am ddim.

⁶⁰ Ac, os yw'n briodol, y Rhaglen Mesur Plant a'r cyfrifoldebau diogelu angenrheidiol.

7. Atodiadau

Canllawiau Pwnc Cwmpasu

Mae Miller Research wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil cwmpasu i gael sail o wybodaeth ar gyfer datblygu cam dau Rhaglen Plant Iach Cymru.

Diben y cyfweiliadau hyn yw deall cwmpas yr arferion presennol o fewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, a'r canlyniadau a'r effeithiau mae rhanddeiliaid allweddol yn dymuno i arferion nyrsio mewn ysgolion eu cyflawni.

Cyfrinachedd:

Gofynnwn i chi sicrhau pawb a gaiff eu cyfweild y bydd popeth a ddywedir yn ystod y cyfweiliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac y byddwn yn adrodd ar faterion a themâu cyffredinol yn unig. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol byddant yn cael eu haddasu'n ddigonol i sicrhau na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am eu caniatâd i gael eu dyfynnu.

Mae Miller Research yn dilyn canllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad (MRS).

Y sawl a gyfweilir	
Rôl/sefydliad	
Amser/dyddiad	
Cyfweilydd	

Allwch chi roi ychydig o gefndir eich rôl o safbwynt gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion a cham dau Rhaglen Plant Iach Cymru?

Rôl a swyddogaeth presennol arferion nyrsio mewn ysgolion

1. Beth ydych chi'n ei weld fel rôl nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd? Sut, os o gwbl, mae hyn yn amrywio yn y lleoliadau canlynol:
 - Ysgolion cynradd
 - Ysgolion uwchradd
 - Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion?
2. Pa fath o wasanaethau craidd (hanfodol) a gwasanaethau estynedig (dewisol) a gaiff eu darparu trwy nyrsio mewn ysgolion? *Anogwch os bydd angen: er enghraifft, gweithredu'r rhaglenni sgrinio, cadw gwyliadwriaeth ac imiwneiddio cenedlaethol, cymorth pellach a/neu cyfeirio at wasanaethau lleol neu arbenigol etc.*
3. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn effeithiol? (ar sail polisi, tystiolaeth, cwmpas)
4. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn gyson â'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion?

5. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd a ledled Cymru? (Os yn berthnasol), pa fathau o fylchau neu anghysondebau sydd mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion ledled Cymru?
6. Sut mae nyrsio mewn ysgolion yn ymdrin â'r cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol (sef mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, trwy ddarparu gwasanaeth i bawb ond gyda chymorth ychwanegol i grwpiau mwy difreintiedig)?
7. Sut, os o gwbl, y gellid gwella arferion nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru?
8. Beth sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn?

Cyd-destun ehangach i nyrsio mewn ysgolion

9. Pa broffesiynau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, neu'n gorgyffwrdd â nhw? *Anogwch os bydd angen: iechyd rhyw, CAMHS, pediatreg cymunedol a nyrsio arbenigol (ar gyfer cyflyrau hirdymor fel asthma), ysgolion iach, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau iechyd a gyllidir gan yr ysgol.*
10. Sut, os o gwbl, y gellid gwella gweithio mewn partneriaeth gyda phroffesiynau eraill?
11. Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddatblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu cyflwyno yng Nghymru?

Datblygad pellach Rhaglen Plant Iach Cymru (Noder, ni fydd pob rhanddeiliad yn gallu gwneud sylwadau helaeth ar hyn)

12. Beth ydych chi'n ei weld fel y nodau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion? Pa ganlyniadau ddylid eu disgwyl gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion?
13. Pa elfennau o wasanaethau nyrsio presennol mewn ysgolion y gwyddoch amdanynt sydd angen eu cynnwys yn Rhaglen Plant Iach Cymru fel arferion safonedig ledled Cymru?
14. Beth fyddai'r ffordd orau o fonitro gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn unol â cham dau o Raglen Plant Iach Cymru? (yn ansoddol ac yn feintiol)
15. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch cam dau o Raglen Plant Iach Cymru?

Diolch am eich amser.

Canllawiau Pwnc Nyrsys Ysgol Arweiniol

Mae Miller Research wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil cwmpasu i gael sail o wybodaeth ar gyfer datblygu cam dau Rhaglen Plant Iach Cymru.

Diben y cyfweiliadau hyn yw deall cwmpas yr arferion presennol o fewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, a'r canlyniadau a'r effeithiau mae nyrsys ysgol arweiniol ym mhob ardal bwrdd iechyd yn dymuno i arferion nyrsio mewn ysgolion eu cyflawni.

Cyfrinachedd:

Gofynnwn ichi sicrhau pawb a gaiff eu cyfweld y bydd popeth a ddywedir yn ystod y cyfweiliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac y byddwn yn adrodd ar faterion a themâu cyffredinol yn unig. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol byddant yn cael eu haddasu'n ddigonol i sicrhau na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am eu caniatâd i gael eu dyfynnu.

Mae Miller Research yn dilyn canllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad (MRS).

Y sawl a gyfwelir	
Rôl/sefydliad	
Amser/dyddiad	
Cyfwelydd	

Rôl a swyddogaeth presennol arferion nyrsio mewn ysgolion

1. Beth ydych chi'n ei weld fel rôl nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd? Sut, os o gwbl, mae hyn yn amrywio yn y lleoliadau canlynol:
 - Ysgolion cynradd
 - Ysgolion uwchradd
 - Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion
 - Lleoliadau addysg heblaw ysgolion?
2. Pa fath o wasanaethau craidd (hanfodol) a gwasanaethau estynedig (dewisol) a gaiff eu darparu trwy nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]? *Anogwch os bydd angen: er enghraifft, gweithredu'r rhaglenni sgrinio, cadw gwyliaidwriaeth ac imiwneiddio cenedlaethol, sesiynau galw heibio, gweithgareddau'r tu allan i'r ysgol, cymorth pellach a/neu cyfeirio at wasanaethau lleol neu arbenigol etc.*
3. Yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol] pa fath o wasanaethau ac ymyraethau sy'n cael eu cyflwyno?
 - a. Pa bryd maen nhw'n cael eu cyflwyno?
 - b. Lle maen nhw'n cael eu cyflwyno? Hynny yw, mewn ysgol neu leoliad arall?
 - c. Pwy sy'n eu cyflwyno?
 - d. I bwy maen nhw'n cael eu cyflwyno? (Hynnyw yw, pa fecanweithiau ar gyfer sginio a thargeddu sy'n cael eu defnyddio?)

- e. Ar sail pa wybodaeth y ffurfiwyd y gwasanaethau a'r ymyraethau hyn?
4. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn effeithiol? (ar sail polisi, tystiolaeth, cwmpas)
 5. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn gyson â'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion? *Anogwch trwy holi a yw'r gwasanaethau yn cael eu cyflwyno yn ystod y tymor yn unig neu 52 wythnos y flwyddyn.*
 6. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn gyson ar draws [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol] a ledled Cymru? (Os yn berthnasol), pa fathau o fylchau neu anghysondebau sydd mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion ar draws [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
 7. Sut mae nyrsio mewn ysgolion yn ymdrin â'r cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol (sef mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, trwy ddarparu gwasanaeth i bawb ond gyda chymorth ychwanegol i grwpiau mwy difreintiedig)?
 8. Sut fath o wasanaethau nyrsys ysgol mae plant mewn lleoliadau addysg heblaw ysgolion yn eu derbyn? *Os na thrafodwyd hyn yn fanwl mewn ymateb i gwestiwn 1.*
 9. Pa strwythurau staffio a ffyrdd gweithredol o weithio ar draws ysgolion (ee dulliau ar sail clystyrau, defnydd o gymysgedd sgiliau), a ddefnyddir yn [cyfeiriwch ac y bwrdd iechyd perthnasol]? *Eglurwch fod hyn er mwyn datblygu strwythur ein sampl.*
 10. [I nyrsys ysgol arweiniol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Powys, sef y rheini ar hyd y ffin â Lloegr] I ba raddau mae dalgylchoedd trawsffiniol i ysgolion yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth nyrsio cyffredinol mewn ysgolion i ddisgyblion ysgol?
 11. Sut, os o gwbl, y caiff arferion nyrsio mewn ysgolion eu dogfennau yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]? Sut ydych chi'n rhannu gwybodaeth rhwng addysg ac iechyd?
 12. Sut, os o gwbl, y gellid gwella arferion nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
 13. Beth sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn? Beth ydych chi'n ei weld fel y rhwystrau i'r gwelliannau hyn?

Cyd-destun ehangach i nyrsio mewn ysgolion

14. Pa broffesiynau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, neu'n gorgyffwrdd â nhw? *Anogwch os bydd angen: iechyd rhyw, CAMHS, pediatreg cymunedol a nyrsio arbenigol (ar gyfer cyflyrau hirdymor fel asthma), ysgolion iach, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau iechyd a gyllidir gan yr ysgol.*

15. Pa brosesau sydd ar waith i gysylltu neu atgyfeirio at gymorth ychwanegol (ee CAMHS, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol/Cynllun Gwên, Ysgolion Iach) ac atgyfeirio at nyrsys ysgol (ee o wasanaethau Diogelu Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol).
16. Allwch chi ddisgrifio'r dull presennol o drosglwyddo o wasanaethau ymwelwyr iechyd i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
17. Sut, os o gwbl, y gellid gwella gweithio mewn partneriaeth gyda phroffesiynau eraill?
18. Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddatblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu cyflwyno yng Nghymru?

Datblygad pellach Rhaglen Plant Iach Cymru

19. Beth ydych chi'n ei weld fel y nodau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion? Pa ganlyniadau ddylid eu disgwyl gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion?
20. Pa elfennau o wasanaethau nyrsio presennol mewn ysgolion y gwyddoch amdanynt sydd angen eu cynnwys yn Rhaglen Plant Iach Cymru fel arferion safonedig ledled Cymru?
21. Beth fyddai'r ffordd orau o fonitro gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn unol â cham dau Rhaglen Plant Iach Cymru? (yn ansoddol ac yn feintiol)
22. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch cam dau o Raglen Plant Iach Cymru?

Diolch am eich amser.

Canllawiau Pwnc Nyrsys Ysgol

Mae Miller Research wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfweiliadau gyda nyrsys ysgol, ymarferwyr addysgu a chynrychiolwyr rhieni ar gyrff llywodraethu ysgolion i gasglu gwybodaeth ar gyfer datblygu cam dau o Raglen Plant Iach Cymru.

Diben y cyfweiliadau hyn yw deall cwrmpas yr arferion presennol o fewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, a chanlyniadau ac effeithiau arferion nyrsio mewn ysgolion a fyddai'n ddymunol o safbwynt y gwahanol randdeiliaid hyn.

Cyfrinachedd:

Gofynnwn ichi sicrhau pawb a gaiff eu cyfweld y bydd popeth a ddywedir yn ystod y cyfweiliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac y byddwn yn adrodd ar faterion a themâu cyffredinol yn unig. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol byddant yn cael eu haddasu'n ddigonol i sicrhau na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am eu caniatâd i gael eu dyfynnu.

Mae Miller Research yn dilyn canllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad (MRS).

Y sawl a gyfwelir	
Rôl/sefydliad	
Amser/dyddiad	
Cyfwelydd	

Rôl a swyddogaeth presennol arferion nyrsio mewn ysgolion

1. Beth ydych chi'n ei weld fel rôl nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd? Sut, os o gwbl, mae hyn yn amrywio yn y lleoliadau canlynol:
 - Ysgolion cynradd
 - Ysgolion uwchradd
 - Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion
 - Lleoliadau addysg heblaw ysgolion?
2. Pa fath o wasanaethau craidd (hanfodol) a gwasanaethau estynedig (dewisol) a gaiff eu darparu trwy nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]? *Anogwch os bydd angen: er enghraifft, gweithredu'r rhaglenni sgrinio, cadw gwyliadwriaeth ac imiwneiddio cenedlaethol, sesiynau galw heibio, gweithgareddau'r tu allan i'r ysgol, cymorth pellach a/neu cyfeirio at wasanaethau lleol neu arbenigol etc.*
 - a. Pa bryd maen nhw'n cael eu cyflwyno?
 - b. Lle maen nhw'n cael eu cyflwyno? Hynny yw, mewn ysgol neu leoliad arall?
 - c. Pwy sy'n eu cyflwyno?
 - d. I bwy maen nhw'n cael eu cyflwyno? (Hynnyw yw, pa fecanweithiau ar gyfer sginio a thargedu sy'n cael eu defnyddio?)
 - e. Ar sail pa wybodaeth y ffurfiwyd y gwasanaethau a'r ymyraethau hyn?
3. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn effeithiol yn eich barn chi?

4. I ba raddau mae'r gwasanaethau hyn yn gyson â'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion? *Anogwch trwy holi a yw'r gwasanaethau yn cael eu cyflwyno yn ystod y tymor yn unig neu 52 wythnos y flwyddyn.*
5. Ydych chi'n gwybod a yw'r gwasanaethau hyn rydych chi'n eu cyflwyno yn gyson ar draws [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol] a ledled Cymru? (Os yn berthnasol), pa fathau o fylchau neu anghysondebau sydd mewn gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion ar draws [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
6. Sut mae nyrsio mewn ysgolion yn ymdrin â'r cysyniad o gyffredinololaeth gynyddol (sef mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, trwy ddarparu gwasanaeth i bawb ond gyda chymorth ychwanegol i grwpiau mwy difreintiedig)?
7. Sut fath o wasanaethau nyrsys ysgol mae plant mewn lleoliadau addysg heblaw ysgolion yn eu derbyn? *Os na thrafodwyd hyn yn fanwl mewn ymateb i gwestiwn 1.*
8. Pa strwythurau staffio a ffyrdd gweithredol o weithio ar draws ysgolion (ee dulliau ar sail clystyrau, defnydd o gymysgedd sgiliau), a ddefnyddir yn [cyfeiriwch ac y bwrdd iechyd perthnasol]?
9. [I nyrsys ysgol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Powys, sef y rheini ar hyd y ffin â Lloegr] I ba raddau mae dalgylchoedd trawsffiniol i ysgolion yn effeithio ar ddarparu gwasanaeth nyrsio cyffredinol mewn ysgolion i ddisgyblion ysgol?
10. Sut caiff arferion nyrsio mewn ysgolion eu dogfennau yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]? Sut ydych chi'n rhannu gwybodaeth rhwng addysg ac iechyd?
11. Sut, os o gwbl, y gellid gwella arferion nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
12. Beth sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn? Beth ydych chi'n ei weld fel y rhwystrau i'r gwelliannau hyn?

Cyd-destun ehangach i nyrsio mewn ysgolion

13. Pa broffesiynau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, neu'n gorgyffwrdd â nhw? *Anogwch os bydd angen: iechyd rhyw, CAMHS, pediatreg cymunedol a nyrsio arbenigol (ar gyfer cyflyrau hirdymor fel asthma), ysgolion iach, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau iechyd a gyllidir gan yr ysgol.*

14. Pa brosesau sydd ar waith i gysylltu neu atgyfeirio at gymorth ychwanegol (ee CAMHS, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol/Cynllun Gwên, Ysgolion Iach) ac atgyfeirio at nyrsys ysgol (ee o wasanaethau Diogelu Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol).
15. Allwch chi ddisgrifio'r dull presennol o drosglwyddo o wasanaethau ymwelwyr iechyd i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn [cyfeiriwch at y bwrdd iechyd perthnasol]?
16. Sut, os o gwbl, y gellid gwella gweithio mewn partneriaeth gyda phroffesiynau eraill?
17. Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddatblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion eu cyflwyno yng Nghymru?

Datblygiad pellach Rhaglen Plant Iach Cymru

18. Beth ydych chi'n ei weld fel y nodau i wasanaethau nyrsio mewn ysgolion? Pa ganlyniadau ddylid eu disgwyl gan wasanaethau nyrsio mewn ysgolion?
19. Pa elfennau o wasanaethau nyrsio presennol mewn ysgolion y gwyddoch amdanynt sydd angen eu cynnwys yn Rhaglen Plant Iach Cymru fel arferion safonedig ledled Cymru?
20. Beth fyddai'r ffordd orau o fonitro gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion yn unol â cham dau Rhaglen Plant Iach Cymru? (yn ansoddol ac yn feintiol)
21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch cam dau o Raglen Plant Iach Cymru?

Diolch am eich amser.